# Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu

## Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

Universal Credit
Credyd Cynhwysol

# Cynllun Diweddaru a Threialu Gwasanaethau Cymorth Lleol
# **Credyd Cynhwysol**

Rhagfyr 2013

# Cynnwys

Rhagair y Gweinidog ........ 3

Cyflwyniad llywodraeth leol ........ 4

1. Adran 1: Trosolwg a diben ........ 6
2. Adran 2: Crynodeb llywodraeth leol ........ 7
3. Adran 3: Cyd-destun a chefndir ........ 9
4. Adran 4: Cyfleoedd dysgu a threialu'r Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol ........ 11
5. Adran 5: Sefydlu lefel y cymorth sy'n ofynnol ar gyfer Credyd Cynhwysol ........ 13
6. Adran 6: Ariannu gwasanaethau cymorth lleol ........ 14
7. Adran 7: Rhannu gwybodaeth ........ 17
8. Adran 8: Edrych i'r dyfodol ........ 18

Rhestr termau ........ 19

Atodiad A: Enghreifftiau o arfer da a gwersi a ddysgwyd ........ 20

Atodiad B: Enghraifft o daith gyfun hawlydd ........ 37

Atodiad C: Sefydliadau Tai a'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol ........ 38

Atodiad Ch: Dewislen treialu ........ 98

Atodiad D: Prosbectws treialu ........ 45

Atodiad Dd: Manteision cynllunio cynnar ........ 48

Atodiad E: Disgrifiadau o wasanaethau cymorth ........ 50

# Rhagair y Gweinidog

## Mae Credyd Cynhwysol yn cynrychioli trawsnewidiad diwylliannol mawr. Drwy sicrhau bod gwaith yn talu, a bod y profiad o fod ar fudd-daliadau yn cyfateb yn agos â bod yn y gwaith, mae'n galluogi pobl i gymryd llawer mwy o reolaeth dros eu bywydau eu hunain.

Mae hwn yn gyfle arwyddocaol ac i lawer o bobl y bydd yn newid cymharol syml. Ond bydd hefyd pobl sydd angen cefnogaeth gyda'r pontio, a dyna pam rydym yn gweithio'n agos gyda llywodraeth leol i ddatblygu'r Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol. Pan gaiff ei gyflwyno'n llawn, bydd y Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol yn gwneud dau beth hanfodol.

Yn gyntaf, bydd yn sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi i wneud y newid i Gredyd Cynhwysol drwy eu helpu i addasu i rai agweddau newydd ar y ffordd y caiff y Credyd Cynhwysol ei gynllunio. Felly, ar gyfer y rheiny sy'n newydd i gyllidebu'n fisol neu fynd ar-lein, cânt  y cymorth sydd ei angen arnynt i reoli'r broses bontio.

Yn ail, bydd yn cefnogi'r nifer fach o bobl sy'n ei chael yn fwy anodd i wneud y newid hwn a byddwn yn gwneud hynny dros y hirdymor. Ni fydd hon fyth yn broses statig - y nod bob amser fydd symud pobl, yn gynaliadwy, tuag at annibyniaeth - ond lle mae pobl angen cefnogaeth dros gyfnod hirach o amser bydd y Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol yn sicrhau y cânt gymorth lleol, wedi'i deilwra i'r hyn sydd eu hangen arnynt.

Mae llawer o waith da eisoes wedi'i wneud gan awdurdodau lleol a Rheolwyr Dosbarth y Ganolfan Byd Gwaith ers i ni gyhoeddi fersiwn cyntaf y Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol ym mis Chwefror eleni. Mae'r Prosiectau Arddangos Taliadau Uniongyrchol wedi bod yn profi'r goblygiadau o dalu Budd-dal Tai yn uniongyrchol i denantiaid y sector cymdeithasol; mae'r Cynlluniau Peilot a arweiniwyd gan Awdurdodau Lleol wedi bod yn profi dulliau ar gyfer cefnogi hawlwyr i gyllidebu a mynd ar-lein, ac mae cynghorau yn yr ardaloedd Arbrofol wedi bod yn cynnig gwasanaethau cefnogi ar lefel leol.

Ond mae llawer mwy i'w wneud wrth i ni baratoi ar gyfer cyflwyno'r Credyd Cynhwysol yn llawn. Ar 5 Rhagfyr cyhoeddwyd ein cynlluniau ar gyfer y cam nesaf o weithredu Credyd Cynhwysol. Bydd hyn yn gweld ehangu parhaus o'n gwasanaeth byw ac ymarferoldeb cyfredol, fel y byddwn o haf nesaf yn cymryd ceisiadau newydd ar gyfer Credyd Cynhwysol ar gyfer cyplau yn gynyddol a, yn yr hydref, ar gyfer teuluoedd. Unwaith y bydd y profi'n ddiogel, byddwn hefyd yn ehangu'r broses cyflwyno i gynnwys mwy o Ogledd-orllewin Lloegr. Mae'r camau hyn yn parhau a'n dull blaengar i brofi, dysgu a gweithredu wrth i ni gyflawni'r rhaglen flaenllaw hyn, a byddwn yn cymhwyso'r un prawf, dysgu a'r  ymagwedd gweithredu hynny wrth i ni symud ymlaen gyda datblygiad y Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol.

Dyna pam mae cyhoeddi'r Cynllun Diweddaru a Threialu Gwasanaethau Cymorth Lleol heddiw mor bwysig. Mae'n nodi sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd yn ystod y flwyddyn nesaf i brofi trefniadau gwahanol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, rheolaeth ariannol, cyflwyniad effeithiol y gwasanaethau rheng flaen ac agweddau penodol eraill y Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol. Mae hefyd yn nodi'r hyn y gall awdurdodau lleol a Rheolwyr Dosbarth y  Ganolfan Byd Gwaith ei wneud i baratoi, yn cynnwys cryfhau partneriaethau presennol ac adeiladu rhai newydd, gan nodi cyfleoedd adnoddau a rhannu arfer da.

Byddwn yn cyhoeddi Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol arall yn hydref 2014. Cyn hynny edrychaf ymlaen at ddysgu yn union yr hyn sy'n gweithio o ran darparu gwasanaethau cefnogi lleol ar gyfer Credyd Cynhwysol, ac i barhau i adeiladu partneriaethau cryf ac effeithiol a fydd mor bwysig i sicrhau bod y Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol yn realiti.



**Yr Arglwydd Freud**
**Y Gweinidog dros Ddiwygio Lles**

# Cyflwyniad llywodraeth leol

## Cyflwyniad llywodraeth leol

### Ers cyhoeddi'r Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol ym mis Chwefror 2013, mae rôl llywodraeth leol fel un o gomisiynwyr allweddol gwasanaethau cymorth ar gyfer Credyd Cynhwysol wedi dod yn fwy arwyddocaol.

Bydd cynghorau yn ganolog i'r gwaith o sefydlu, arwain a chomisiynu partneriaethau i roi cymorth i hawlwyr. Drwy ein gwaith gyda'r sector gwirfoddol a darparwyr tai cymdeithasol, gallwn fanteisio eisoes ar sylfaen amrywiol o ddarpariaeth wedi'i deilwra i anghenion hawlwyr lleol. Bydd y rhain yn darparu'r cymorth eang sydd ei angen o'r dechrau'n deg.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau bellach wedi egluro y bydd y partneriaethau a sefydlwyd gyda llywodraeth leol yn para hyd at 2020 o leiaf. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i lywodraeth leol. Nawr, mae angen i gynghorau barhau i ddangos arweiniad fel y gwnaethom drwy sefydlu'r prosiectau Peilot a arweinwyd gan Awdurdodau Lleol. Mae'r prosiectau peilot hyn wedi rhoi dealltwriaeth werthfawr. Nawr, mae angen i ni ddatblygu'r agenda ymhellach drwy groesawu'r cyfleoedd profi a amlinellir yn y ddogfen hon. Bydd hyn yn rhoi rhagor o gyfleoedd i lywodraeth leol arwain y gwaith a wneir ar wasanaethau cymorth.

Datblygwyd y syniadau a amlinellir yn y ddogfen hon drwy bartneriaeth gadarn, gwerth chweil rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r cymdeithasau llywodraeth leol. Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i gydnabod y gwaith caled a wnaed gan bawb, yn cynnwys Gweinidogion yr Adran Gwaith a Phensiynau, i'n galluogi i gyrraedd y sefyllfa bresennol. Edrychwn ymlaen at bennod nesaf ein gwaith a gobeithio y bydd y cynllun diweddaru hwn yn sylfaen defnyddiol ar gyfer datblygu eich gwasanaethau eich hun.

**Syr Merrick Cockell**
**Cadeirydd - Cymdeithas Llywodraeth Leol**

## Confensiwn Awdurdodau Lleol yr Alban

### Mae gan lywodraeth leol rôl glir a sefydledig yn y gwaith o fynd i'r afael â thlodi, anghydraddoldeb ac amddifadedd a ddarperir drwy amrywiaeth eang o wasanaethau i ddiwallu anghenion ein cymunedau mewn modd cyfannol.

TMae'r rôl ehangach hon yn rhoi hwb uniongyrchol i lywodraeth leol i gymryd rhan yn y diwygiadau Credyd Cynhwysol wrth i gynghorau geisio sicrhau y caiff y rheini yn ein cymunedau gymorth i hawlio eu budd-daliadau ac i wneud y newidiadau sy'n angenrheidiol i'w bywydau er mwyn rheoli'r effeithiau y gall y diwygiadau eu cael arnynt.

Rydym yn cydnabod bod gan bobl a theuluoedd sy'n gymwys i gael budd-daliadau, ac sy'n cael budd-daliadau, lawer i'w ennill o'r ffaith bod lywodraeth leol a Chanolfan Byd Gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau yn gweithio mewn partneriaeth yn lleol wrth gynllunio ein gwasanaethau cymorth. Mae gan lywodraeth leol hanes hir o helpu'r rheini yn ein cymunedau i wneud cais am fudd-daliadau a'u hawlio, yn ogystal â rhoi cymorth ehangach ar gyfer cynhwysiant ariannol. Er y bydd manylion y rôl honno'n newid yn radical o dan Gredyd Cynhwysol mae'r sylfaeni wedi'u gosod yn barod i adeiladu arnynt er budd ein cymunedau.

Bydd y dull datblygol hwn yn galw ar ddau faes y llywodraeth i barchu rolau a safbwyntiau ei gilydd a bod yn hyblyg wrth weithio mewn partneriaeth ac yn ymatebol i anghenion a galw lleol wrth i'r rhaglen Credyd Cynhwysol gael ei chyflwyno.Yn yr Alban, rydym mewn sefyllfa dda i wneud hyn ochr yn ochr â'n partneriaid lleol ehangach, yn cynnwys y Trydydd Sector, drwy Bartneriaethau Cynllunio Cymunedol.

Drwy gydweithredu wrth ddatblygu'r Fframwaith ar gyfer gwasanaethau cymorth lleol, gosodir y tôn ar gyfer sut y dylai partneriaethau weithio'n lleol, ynghyd â'r ymrwymiad i Gytundeb Partneriaeth Cyffredinol yr Alban sy'n cynnwys Llywodraeth yr Alban fel partner. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i awdurdodau lleol wneud eu penderfyniadau eu hunain ar wahân ynghylch p'un a fyddant yn cymryd rhan yn lleol yn y partneriaethau hyn. Yn y cyd-destun hwn, mae ymrwymiad parhaus lywodraeth y DU i'r dull o weithio mewn partneriaeth gyda llywodraeth leol hyd at o leiaf 2020 yn rhoi sicrwydd a sefydlogrwydd pwysig i'r awdurdodau lleol hynny sy'n rhan o'r partneriaethau lleol.

Mae angen cytuno ar rai manylion ynghylch y pecyn cyllido, y model cyllido a chynnwys y Cytundebau Partneriaeth Cyffredinol o hyd, ond rydym yn croesawu'r dull a fabwysiadwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n cydnabod llywodraeth leol a Chonfensiwn Awdurdodau Lleol yr Alban yn bartneriaid cyfartal yn y broses hon.

Bydd COSLA yn parhau i weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i ddatblygu manylion y Fframwaith terfynol, ond yn y cyfamser, rydym yn croesawu'r cyfeiriad newydd hwn.



**David O'Neill**
**Llywydd - Confensiwn Awdurdodau Lleol yr Alban**

## Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

### Mae llywodraeth leol yng Nghymru yn ymrwymedig i gyflawni ei hagenda cyfiawnder cymdeithasol a gwrthdlodi er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac amddifadedd yn ein cymunedau.

Gwneir hyn drwy amrywiaeth eang o wasanaethau sy'n cyflwyno dull system gyfan o ddiwallu anghenion ein cymunedau. Mae gennym hanes sicr eisoes o gydweithio ac o weithio mewn partneriaeth gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau wrth gefnogi pobl y mae angen iddynt fanteisio ar y rhwyd diogelwch lles gyda chymorth agosrwydd awdurdodau lleol at y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Dylai hyn barhau pan gyflwynir Credyd Cynhwysol.

Mae gwasanaethau cymorth lleol sy'n bodoli eisoes a ddarperir mewn partneriaeth â'r Trydydd Sector a phartneriaid cyhoeddus lleol eraill yn cyd-fynd yn dda ag amcanion cyffredinol y Fframwaith Gwasanaeth Cymorth Lleol a bydd teuluoedd ac unigolion sy'n hawlio budd-daliadau yn y dyfodol yn cael cymorth ychwanegol gwell drwy gynhwysiant digidol a chynhwysiant ariannol. Bydd llywodraeth leol yn ymgysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r agenda Credyd Cynhwysol i sicrhau y gall unigolion ymdopi â'r newidiadau sydd ar droed gyda hyder a sicrwydd. Rydym hefyd yn ymrwymedig i ystyried sut y gallwn fynd ymhellach a sicrhau bod y gwasanaethau newydd yn cael eu hintegreiddio'n llwyr â'r gwasanaethau sy'n bodoli eisoes mewn ffordd sy'n gwella canlyniadau i bobl. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i ddatblygu model cyllido priodol.

Mae'r Cynllun Diweddaru a Threialu hwn yn nodi'r hyn a gyflawnwyd ar y cyd ers cyhoeddi'r Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol ym mis Chwefror. Mae'n nodi ymhellach ble y mae angen parhau i ddatblygu prosesau gweithio mewn partneriaeth barhaus er mwyn darparu gwasanaeth a fydd yn ymatebol i anghenion unigolion a theuluoedd.

Cawn ein calonogi gan ymrwymiad llywodraeth y DU i lywodraeth leol fel partner allweddol yn y broses o ddarparu'r Gwasanaeth Cymorth Lleol hyd at o leiaf 2020. Mae llywodraeth leol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth yn barhaus gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, yn ganolog ac yn lleol, er mwyn dylanwadu ymhellach ar y modd y caiff gwasanaethau lleol eu darparu.



**David Phillips**
**Llefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar Dlodi a Diwygio Lles**

# Adran 1: Trosolwg a diben

## Mae'r Cynllun Diweddaru a Threialu Gwasanaethau Cymorth Lleol Credyd Cynhwysol wedi'i ddatblygu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), ar y cyd â chydweithwyr mewn llywodraeth leol. Mae'n ymateb i'r angen i ailbennu gwaith gwasanaethau cymorth lleol ar ôl y cyhoeddiad ym mis Gorffennaf a mis Rhagfyr a nododd y camau nesaf ar gyfer y broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol.

Bydd y rhain yn cynnwys ehangu'r gwasanaeth byw ac ymarferoldeb yn raddol. Dechreuodd broses cyflwyno cenedlaethol cynyddol y Credyd Cynhwysol i 6 safle ychwanegol ym mis Hydref 2013 a chaiff ei gwblhau erbyn Gwanwyn 2014, gan wneud y broses o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol yn fyw mewn 10 lleoliad ledled Cymru, Lloegr a'r Alban. Yn ystod haf 2014 byddwn yn dechrau cynnwys cyplau, wedi'i ddilyn gan deuluoedd. Unwaith y bydd y profi'n ddiogel yn y 10 safle byw caiff y broses cyflwyno ei ehangu i gynnwys mwy o Ogledd-orllewin Lloegr.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd a wnaed ers cyhoeddi'r Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol (y Fframwaith) ym mis Chwefror 2013[1], ac yn nodi'r gwersi a ddysgwyd o'r prosiectau peilot dan arweiniad Awdurdodau Lleol[2 3], y Prosiectau Arddangos Taliadau Uniongyrchol[4], a'r Ardal Arbrofol; adborth gan y Pwyllgor Ymgynghori ar Nawdd Cymdeithasol (SSAC)[5], a'r ymatebion a gafwyd i'r Fframwaith[6].

Drwy gydweithio â'n cydweithwyr mewn llywodraeth leol, rydym wedi cytuno, lle rydym wedi gwneud cynnydd digonol i asesu rhai agweddau ar y Fframwaith, y dylem fanteisio ar y cyfle i wneud hynny. Mae'r cyhoeddiad hwn yn nodi cynlluniau cynnar ar gyfer profi a threialu egwyddorion a phrosesau'r Fframwaith yn yr Ardal Arbrofol; yr ardaloedd newydd lle mae Credyd Cynhwysol yn fyw o fis Hydref 2013 yn ystod y camau nesaf o gyflwyno Credyd Cynhwysol yn genedlaethol fesul cam; yr ardaloedd Peilot dan arweiniad ALlau ac mewn safleoedd gwirfoddol newydd ledled y wlad.

Anogir cynghorau a Rheolwyr Dosbarth y Ganolfan Byd Gwaith DWP i fanteisio ar y cyfle i ddechrau paratoi ar gyfer cyflwyno Credyd Cynhwysol yn eu hardal leol. Os nad yw'r camau canlynol eisoes ar waith, credwn y byddai'n werth i'r ddwy ochr:

- Dechrau cydweithio a dechrau creu partneriaethau gwaith effeithiol;
- Manteisio ar y cyfle i ddechrau gweithgarwch cynllunio cynnar yn eu hardaloedd, er enghraifft drwy fapio gwasanaethau ar y cyd er mwyn sefydlu lefel y cymorth y gallai fod angen ei roi i hawlwyr, yn enwedig hawlwyr ag anghenion cymhleth (gweler Adran 5);
- Dechrau meddwl sut y gellir darparu'r gwasanaethau hyn er mwyn cyflawni canlyniadau gwell i hawlwyr a'u paratoi ar gyfer y dyfodol a gwell gwerth am arian i'r trethdalwr.

**Ceir casgliad o enghreifftiau o arfer da presennol a gwersi a ddysgwyd yn Atodiad A.**

Bydd canlyniadau'r gweithgarwch treialu hwn yn golygu y gellir gwerthuso egwyddorion gwasanaethau cymorth lleol ar gam cynnar a llywio gwaith o ddatblygu Fframweithiau ar gyfer y dyfodol. Mae Adran 8 yn rhoi mwy o fanylion i'r rhai sydd â diddordeb o ran yr hyn y gallant fod yn ei wneud nawr i baratoi ar gyfer cyflwyno Credyd Cynhwysol.

Gan edrych ymhellach i'r dyfodol, ein nod ar y cyd yw llunio diweddariad o'r Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol yn ystod hydref 2014, ar ôl proses ymgynghori barhaus, deialog a chydweithio, a fydd yn rhoi rhagor o wybodaeth i alluogi partneriaethau lleol i gynllunio eu gwasanaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015-16 a thu hwnt.

1. www.gov.uk/government/publications/universal-credit-local-support-services-framework.
2. https://www.gov.uk/government/publications/local-authority-led-pilots-a-summary-of-early-learning-from-the-pilots.
3. http://www.local.gov.uk/publications/-/journal_content/56/10180/4050723/PUBLICATION.
4. http://www.shu.ac.uk/research/cresr/sites/shu.ac.uk/files/direct-payments-learning-lessons.pdf.
5. http://ssac.independent.gov.uk/pdf/occasional/implementation-uc-claimants.pdf.
6. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/226191/uc-local-service-support-framework-response.pdf.

# Adran 2: Crynodeb llywodraeth leol

**Cefndir**
Mae cynghorau ledled Prydain eisoes wedi cael profiad o ddarparu'r mathau o wasanaethau cymorth a ddiffinnir yn y Fframwaith. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni heriau'r dirwedd budd-daliadau newidiol a'r cynnydd mewn galw am gymorth, bydd angen buddsoddi yn y gwasanaethau hyn a'u datblygu.

Mae gan lywodraeth leol hanes llwyddiannus o ymateb i'r math hwn o her ac o gynorthwyo cymunedau ac unigolion wrth i'w perthynas â'r wladwriaeth a'i gwasanaethau newid. Caiff hyn ei ategu gan bolisïau, cyfleoedd dysgu, a'r gwaith o ddarparu gwasanaethau integredig sydd wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion lleol. Mae cynghorau mewn sefyllfa unigryw i gomisiynu a darparu gwasanaethau mewn modd cyfannol, sy'n adlewyrchu bywydau hawlwyr, a thirwedd leol amrywiol y ddarpariaeth a geir yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Maent yn cynnig llwybr uniongyrchol at gronfa amrywiol ac agored o ddarparwyr ac yn rhoi'r cyfle i ystyried sut y gall y partneriaethau lleol hyn sicrhau ein bod gyda'n gilydd yn galluogi pobl i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl yn barhaus drwy wasanaethau integredig.

Ledled Prydain, mae Prosiectau Peilot dan arweiniad ALl eisoes wedi dechrau modelu gwasanaethau wyneb yn wyneb i hawlwyr Credyd Cynhwysol, yn cynnwys profi dulliau arloesol radical yn y broses o gydleoli gwasanaethau, brysbennu ac atgyfeirio. Mae cynghorau hefyd wedi gweithio gyda swyddfeydd lleol y Ganolfan Byd Gwaith yn y Prosiectau Arddangos Taliadau Uniongyrchol, gan ddysgu beth yw'r ffordd orau o reoli effeithiau ymddygiadol y model o dalu costau tai drwy Gredyd Cynhwysol. Yn nodedig, mae cynghorau sy'n rhan o'r ardal arbrofol Credyd Cynhwysol wedi croesawu'r cyfle y mae hyn wedi'i gyflwyno ar gyfer dysgu a chydweithio cynnar. Mae cynghorau sy'n rhan o'r mentrau hyn yn debygol o fod mewn sefyllfa dda i gymryd rhan mewn agweddau'r treialu a ddisgrifir yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Mae'r cynlluniau presennol ar gyfer cyflwyno'r Credyd Cynhwysol yn rhoi amser a gofod i brofi a gwerthuso'n drylwyr yr hyn y gellid ei ddarparu drwy wasanaethau cymorth lleol. Mae'r ddogfen hon yn gyfle i atgyfnerthu'r hyn a ddysgwyd, tra'n cymryd camau pellach yn y broses o ddatblygu cynnig ar y cyd i'n cymunedau. Er bod y broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol yn mynd rhagddi mewn modd diogel, mae DWP yn bwriadu cynnal yr arian sydd ei angen ar gynghorau i reoli'r broses lawn o weinyddu Budd-dal Tai hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol 2014-15. Er hyn, gellid ennill llawer drwy barhau i ddatblygu partneriaethau lleol ochr yn ochr â Rheolwyr Dosbarth y Ganolfan Byd Gwaith ledled y wlad.

**Y Diweddaraf**
Ers cyhoeddi'r fersiwn gyntaf o'r Fframwaith ym mis Chwefror 2013, mae Cymdeithasau Awdurdod Lleol Prydain wedi bod yn cydweithio'n agos â DWP i bennu a chytuno ar fodelau gweithredu ariannol ac ymarferol priodol a fydd yn cynorthwyo'r broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol cam wrth gam. Fel cyhoeddiad dros dro, ni fydd y ddogfen hon yn cyflwyno gwybodaeth ar y raddfa honno ond mae'n cynnig y cyfle i sicrhau bod cynghorau a Rheolwyr Dosbarth y Ganolfan Byd Gwaith yn cael cymaint o wybodaeth â phosibl ar weithgarwch datblygu sy'n bodoli eisoes, lle mae gwaith parhaus yn mynd rhagddo a lle y gwnaed cynnydd eisoes.

Mae'r diweddariad yn nodi sut y bydd DWP yn profi nifer o ragdybiaethau dros y 12-18 mis nesaf. Bydd hyn yn helpu llywio penderfyniadau a gymerir fel rhan o'r Fframwaith a gaiff ei gyhoeddi y flwyddyn nesaf. Mae'r prosbectws treialu yn nodi'r bwriad i brofi'r modelau amrywiol posibl ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, gwneud penderfyniadau ar y cyd, rheolaeth ariannol ac asesu anghenion (gweler Atodiad D). Bydd y broses dreialu hefyd yn parhau i ddatblygu dealltwriaeth o agweddau ar ddarparu gwasanaethau megis brysbennu, mynediad ar-lein a chymorth cyllidebu. Rhoddir ystyriaeth bellach o agweddau technegol pwysig a fydd yn ategu llwyddiant y dull hwn o weithio mewn partneriaeth fel sut y gellir rhannu gwybodaeth a data lle mae'n ddymunol gwneud hynny.

**Y Sefyllfa Bresennol**

Bydd cynghorau yn bartneriaid arweiniol cyfartal ar y cyd wrth bennu sut y defnyddir y Ganolfan Byd Gwaith ac unrhyw adnoddau perthnasol llywodraeth leol i gynorthwyo'r broses o ddarparu gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion lleol.

Mae'r Cymdeithasau Awdurdod Lleol yn cytuno gyda'r egwyddor o dreialu cymaint o'r rhagdybiaethau presennol â phosibl i greu'r sylfaen tystiolaeth ar gyfer penderfyniadau yn y dyfodol. Er y gallwn adeiladu ar ddysgu hyd yn hyn, mae angen gwaith pellach oherwydd yr ystod gyfyngedig o grwpiau cleientiaid sy'n cael eu trin a'u hasesu ar hyn o bryd. Hyd nes y bydd data manylach ar gael bydd yn rhaid i bob Cymdeithas Awdurdod Lleol a DWP ddod i gytundeb ynghylch beth sy'n creu pecyn ariannu rhesymol, a dull ariannu a threfniant dosbarthu priodol. Bydd DWP a'r Cymdeithasau Awdurdod Lleol hefyd yn parhau i ystyried gwaith ymchwil newydd a allai lywio costau'r broses o gyflwyno Fframwaith.

Caiff pob un o'r gwledydd yr opsiwn o lunio Cytundeb Partneriaeth Cyffredinol pwrpasol gyda DWP y bydd y partneriaid yn ei ddilyn wrth weithredu. Bydd yr DWP yn profi'r modelau ariannu bloc a'r modelau ariannu sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Bydd yn bosibl cytuno ar fodelau ariannu gwahanol gyda Chymru, Lloegr a'r Alban.

Datblygwyd cwmpas y gwasanaethau a ddarperir o dan y Fframwaith hefyd i gynnwys:

- Rhoi cyngor a gwybodaeth sylfaenol er mwyn helpu rhywun i wneud cais;
- Mynediad ar-lein;
- Gwneud cais yn ddigidol â chymorth;
- Cymorth canolraddol - cymhorthion cyfathrebu a chymorth gydag anghenion cymhleth;
- Cynhwysiant ariannol;
- Cyngor ariannol a chymorth ar gyllidebu;
- Nodi achosion i'w hystyried ar gyfer Trefniant Talu Amgen.

Hefyd, mae llawer o gynghorau ynghyd â Rheolwyr Dosbarth y Ganolfan Byd Gwaith wedi dechrau mapio darpariaeth leol bresennol a ddylai sicrhau y gellir nodi unrhyw fylchau mewn gwasanaeth cyn eu cyflwyno'n genedlaethol. Bydd rhai cynghorau yn gweld gwerth dewis i ddatblygu'r broses o gynllunio gwasanaethau cymorth lleol ochr yn ochr â'u darpariaeth cyflogadwyedd leol yn enwedig ble mae cynghorau eisoes yn bartneriaid lleol o ran cynorthwyo pobl i fod yn barod i weithio. Fodd bynnag, nid yw hyn yn un o ofynion y Fframwaith.

**Symud ymlaen**

Mae'r Cymdeithasau Awdurdod Lleol yn gweld gwerth gwych mewn parhau i ddatblygu dull ar y cyd o ddiwallu anghenion pobl drwy'r Fframwaith ac maent yn ymrwymedig i gyd-gynhyrchu'r fersiwn nesaf o'r Fframwaith llawn. Er mwyn cyflawni yn erbyn yr ymrwymiad hwn ar ran llywodraeth leol, byddwn am weld llywodraeth y DU yn rhoi sicrwydd a gwybodaeth mewn nifer o feysydd allweddol:

- Cyflwyno Credyd Cynhwysol fesul cam yn y dyfodol;
- Y dyraniad arian cyffredinol i gefnogi'r Fframwaith;
- Y trefniadau darparu priodol ym mhob gwlad;
- Y protocolau cyfreithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth;
- Mwy o hyblygrwydd i ddarparu gwasanaethau yn seiliedig ar anghenion a nodwyd fel blaenoriaeth gan y partneriaethau lleol.

Mae'n amlwg bod y ddogfen hon yn cynnwys rhai tybiaethau uchelgeisiol ynghylch lefel y gwasanaethau sylfaenol sydd eisoes ar gael ac a ddisgwylir yn y dyfodol. Fodd bynnag, rydym wedi croesawu'r ymrwymiad i barhau â'r trefniadau blaenorol ar gyfer cymhorthdal Budd-dal Tai ar gyfer 2014-15.

Mae llywodraeth leol yn ystyried mai'r agenda gwasanaethau cymorth lleol yw'r sylfaen ar gyfer buddsoddiad hirdymor mewn dull partneriaeth. Bydd hyn yn cynorthwyo pobl sy'n hawlio budd-daliadau ac yn rheoli mwy o gyfrifoldebau tuag at annibyniaeth yn ogystal â rhoi cymorth i'r bobl hynny sydd ag anghenion ychwanegol neu gymhleth a fydd yn parhau i fod angen manteisio ar gymorth lleol yn barhaus. Fel y cyfryw, rydym yn croesawu ymrwymiad llywodraeth y DU tuag at lywodraeth leol fel y partner arweiniol hyd at o leiaf 2020. Dylai'r ymrwymiad hwn roi'r hyder i gynghorau gynllunio'n strategol i'r dyfodol ochr yn ochr â Rheolwyr Dosbarth y Ganolfan Byd Gwaith drwy sicrhau ein bod mor effeithiol â phosibl gyda'n gilydd a gwella canlyniadau i bobl.

# Adran 3: Cyd-destun a chefndir

**Nodau ac amcanion y Fframwaith**
Mae'r Fframwaith, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2013, yn rhoi strwythur ar gyfer cynllunio cymorth cyfannol ac integredig yn lleol i bobl sydd angen help ychwanegol i wneud cais neu gynnal cais am Gredyd Cynhwysol er mwyn cefnogi eu taith tuag at fod yn hunangynhaliol ac annibynnol. Mae'n fodd o ddefnyddio adnoddau DWP, llywodraeth leol a sefydliadau partner i wella gwerth am arian a chyflawni canlyniadau gwell, drwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Mae'n sicrhau bod atebion wedi'u targedu i ddiwallu anghenion unigolion a gwledydd a rhanbarthau gwahanol ym Mhrydain Fawr.

**Mae'n cydnabod y bydd Credyd Cynhwysol yn ddigidol, ond mae'n cydnabod y bydd gwasanaethau teleffoni ac wyneb yn wyneb ar gael o hyd i'r rheini sydd wir eu hangen.**

Mae'r Fframwaith yn amlinellu dull lefel uwch o feithrin partneriaethau lleol a darparu arian i gwmpasu'r costau cynyddol o gefnogi'r cyfnod trosglwyddo i Gredyd Cynhwysol, a'r rheini ag anghenion tymor hwy i gael budd-daliadau. Mae hefyd yn nodi'r cymhellion ar gyfer cydweithio, er mwyn helpu hawlwyr i symud tuag at fod yn hunangynhaliol ac yn annibynnol. Rydym yn disgwyl y dylai partneriaethau, yn cynnwys rheolwyr y Ganolfan Byd Gwaith a chynghorau fel bartneriaid cyflawni allweddol a chymuned o ddarparwyr lleol, yn cynnwys landlordiaid cymdeithasol a Sefydliadau Gwirfoddol a Chymunedol, i gynllunio'r cymorth hwn ac yna ei roi ar waith. Mae **Atodiad B** yn rhoi enghraifft o daith gyfun hawlydd sydd â phroblemau cyffuriau/alcohol. Mae'n dangos y math o drefniadau cydweithio sy'n ddymunol yr hoffem eu cyflawni wrth ymdrin â hawlwyr ag anghenion cymhleth.

Nid yw'r term 'taith gyfun hawlydd' yn golygu y disgwylir i bob hawliwr ag anghenion cymhleth ddilyn yr un daith o fod yn ddibynnol ar fudd-daliadau i fod yn annibynnol a chael gwaith. Rydym yn cydnabod yr angen i hawlwyr gael eu cynorthwyo mewn modd sydd wedi'i deilwra i'w hanghenion a'u hamgylchiadau unigol.

Mae'r daith yn 'gyfun' yn yr ystyr ei bod yn cael ei rhannu rhwng yr asiantaethau cymorth gwahanol sy'n gweithio gyda hawlydd, yn hytrach na bod gan bob asiantaeth cymorth ei chynlluniau ei hun ar gyfer yr hawlydd gan weithio ar wahân.

**Bydd cynghorau yn cael cyfle i gymryd rôl darparwr/partner arweiniol gyda'r Ganolfan Byd Gwaith wrth gynorthwyo hawlwyr i wella eu gallu a bod yn annibynnol a chael eu cynnwys yn gymdeithasol.**

Fel y nodir yn y Fframwaith, gweledigaeth y llywodraeth yn y tymor hwy yw model cyflenwi mwy agored, a fydd, gobeithio, yn manteisio ar arbenigedd a rhwydweithiau llywodraeth leol i gynnwys cymuned ehangach o ddarparwyr lleol, lle nad yw hyn eisoes yn digwydd. Bydd angen cydweithio pellach ar draws y llywodraeth ac alinio adnoddau a gwasanaethau cyffredin er budd pob partner fel ei gilydd ar gyfer y dull hwn, sydd yn y cam dyheadau o hyd ar hyn o bryd. Efallai y bydd angen darparu gwasanaethau cenedlaethol a/neu leol ychwanegol, er enghraifft, amrywiaeth o adnoddau a gwasanaethau cyngor ariannol ac offer cyllidebu sydd ar gael yn genedlaethol yn ogystal ag yn lleol. Edrychwn ymlaen at weithio gyda llywodraeth leol i bennu sut y gellir defnyddio unrhyw ddarpariaeth genedlaethol yn briodol yng nghyd-destun y Fframwaith.

**Fodd bynnag, dylid sicrhau'r sector llywodraeth leol bod DWP yn bwriadu parhau i weithio gyda chynghorau fel partneriaid cyflenwi allweddol hyd at o leiaf 2020.**

Mae'r Fframwaith yn cydnabod dulliau gwahanol o weithio mewn partneriaeth mewn gwledydd datganoledig. Yng Nghymru, mae Byrddau Gwasanaethau Lleol yn bartneriaethau amlasiantaeth dan arweiniad yr ALl i integreiddio'r broses o gynllunio gwasanaethau, yn enwedig ar gyfer pobl ag anghenion ychwanegol neu gymhleth. Mae'r Byrddau yn cynnal asesiad o anghenion strategol fel rhan o'r broses o ddatblygu cynllun integredig unigol. Dylid sefydlu Dull Partneriaethau Cyflenwi Gwasanaethau

Cymorth Lleol ar lefel strategol yng Nghymru drwy'r Byrddau perthnasol er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â threfniadau partneriaeth sy'n bodoli eisoes. Bydd Cytundeb Partneriaeth Cyffredinol rhwng DWP a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn adlewyrchu hyn.

Yn yr Alban, bydd Cytundeb Partneriaeth Cyffredinol rhwng Confensiwn Awdurdodau Lleol yr Alban (COSLA), Llywodraeth yr Alban a DWP, gan ffafrio'r Partneriaethau Cynllunio Cymunedol fel y lleoliad amlasiantaeth ar gyfer cytuno'r Cytundebau Partneriaeth Cyflenwi. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gwblhau manylion y dull hwn.

Mae'r Fframwaith yn cydnabod y rôl sydd gan landlordiaid cymdeithasol a'r sefydliadau Sector Gwirfoddol a Chymunedol yn cefnogi hawlwyr budd-daliadau, ac mae am sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn parhau, ac yn cynyddu lle y bo angen. Rhagwelir y bydd y sefydliadau hyn yn rhan o bartneriaethau cyflenwi lleol (gweler **Atodiad C**).

# Adran 4: Cyfleoedd dysgu a threialu'r Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol

**Beth rydym yn mynd i'w dreialu?**
Ers cyhoeddi'r Fframwaith, mae tasglu yn cynnwys swyddogion DWP a chydweithwyr o'r Gymdeithas Awdurdod Lleol wedi bod yn cydweithio i ddatblygu'r Fframwaith. Mae hyn wedi'i gefnogi gan gyngor gan gynghorau unigol, cynrychiolwyr o'r sector tai a'r sector gwirfoddol, adrannau eraill y llywodraeth, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban, ac arbenigwyr dadansoddol, gweithredol ac ariannol DWP.

Mae'r tasglu wedi cytuno bod gwerth mewn cynnal rhaglen dreialu, mewn ardaloedd dethol, o rai o'r elfennau canlynol o'r Fframwaith:

- **Gweithio mewn partneriaeth:**
  - Treialu d cynllunio a threfnu;
  - Rheoli cyllid at lefel partneriaeth;
  - Asesu anghenion poblogaeth leol;
  - Darparu gwasanaethau drwy'r dull partneriaeth.

- **Cytundebau partneriaeth:**
  - Cytundebau Partneriaeth Cyflenwi

- **Rheoli arian:**
  - Asesu effaith y Fframwaith ar gyfer hawlwyr a'r ardal leol (gwerth am arian);
  - Strwythur y model ariannol, yn cynnwys treialu'r elfennau sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac elfennau nad ydynt yn seiliedig ar ganlyniadau.

- **Darparu gwasanaethau rheng flaen yn effeithiol:**
  - Gwneud yn siŵr bod hawlwyr yn cael y cymorth cywir iddynt hwy;
  - Trefniadau ar gyfer mynediad ar-lein a chymorth digidol;
  - Cymorth Cyllido Personol h.y. darpariaeth cyngor ariannol i hawlwyr ac ystyried yr angen am drefniadau talu amgen;
  - Cymorth cyfannol ar y cyd i hawlwyr â'r anghenion mwyaf cymhleth.

- **Agweddau penodol eraill:**
  - Yn barod i weithio;
  - Cymhwyster Cronfa Gymdeithasol Ewrop[7] (gweler hefyd **Adran 6**).

Mae **Atodiad Ch** yn rhoi rhagor o fanylion ac awgrymiadau ar gyfer sut y gellid datblygu pob un o'r elfennau profi a ddisgrifir uchod

**Ble y byddwn yn cynnal y treialon?**
Mae rhai ardaloedd o'r gwasanaeth yn fwy parod i'w profi nag eraill. Yn y 4 ardal arbrofol wreiddiol mae Rheolwyr Dosbarth y Ganolfan Byd Gwaith eisoes wedi sefydlu partneriaethau â'u cynghorau priodol i ddarparu rhai gwasanaethau cymorth. Maent yn profi dulliau ar hyn o bryd ar gyfer rhoi cyngor digidol, cyngor ariannol a chymorth cyllido gyda chynghorau a'r sector gwirfoddol a ddefnyddir i roi mynediad i wasanaethau lles a chaiff hyn ei gyflwyno yn y 6 safle ychwanegol a fydd yn dechrau cyflwyno Credyd Cynhwysol rhwng mis Hydref 2013 a Gwanwyn 2014.

Mae 12 **o Brosiectau Peilot**[8] o dan arweiniad ALl yn treialu gweithgarwch o amgylch nifer o themâu craidd ac rydym yn bwriadu parhau i weithio gyda'r prosiectau peilot lle y bo'n briodol, i brofi elfennau o'r Fframwaith, ar ôl cwblhau'r rhaglen beilot bresennol ym mis Rhagfyr 2013.

**Wrth baratoi ar gyfer hyn, mae arweinwyr prosiectau peilot ALl wedi llunio cyfres o gwestiynau ac atebion allweddol y gellir eu rhannu â chynghorau eraill a Rheolwyr Dosbarth y Ganolfan Byd Gwaith er mwyn eu helpu i baratoi eu sefydliadau, eu staff a'u hawlwyr ar gyfer gweithredu Credyd Cynhwysol.**

7. Yn gymwys i Lloegr yn unig; mae Llywodraethau Cymru a'r Alban yn gyfrifol am adnoddau Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn eu hardaloedd eu hun.
8. Mae 12 peilot o dan arweiniad ALlau sy'n gweithredu o fewn 13 awdurdod gwahanol yn cyflenwi gweithgaredd prosiectau peilot craidd. Y rhain yw: Cyngor Bwrdeistref Lewisham yn Llundain; Cyngor Caerfaddon a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf; Cyngor Sir Rhydychen; Cyngor Dinas Birmingham; Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili; Cyngor Sir Casnewydd; Cyngor Dumfries a Galloway; Cyngor Sir Gogledd Lanark; Cyngor Sir Gorllewin Dunbarton; Cyngor Bwrdeistref Rushcliffe; Cyngor Bwrdeistref Melton; Cyngor Dosbarth Gorllewin West Lindsey; a Chyngor Dosbarth Gogledd Dorset. Mae dau awdurdod ychwanegol (Cyngor Oldham a Chyngor Wigan) hefyd yn gweithredu prosiectau Arbrofol tebyg.

Mae cam cyntaf y gwaith hwn bellach wedi'i gwblhau ac mae'n canolbwyntio ar bedair thema allweddol, sef: cynhwysiant ariannol; cymhwysedd digidol, gweithio mewn partneriaeth a brysbennu. Mae'n rhoi fframwaith ardderchog i gynghorau lleol a Rheolwyr y Ganolfan Byd Gwaith adolygu'r gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo ganddynt i greu partneriaethau. Gellir cael copi yn www.gov.uk/government/publications/universal-credit-guidance-for-local-authorities-on-implementation. Disgwylir i ddiweddariad o'r ddogfen gael ei rhyddhau yn y flwyddyn newydd a byddwn yn parhau i rannu canfyddiadau ac arfer da o'r gwaith hwn.

Bydd angen i agweddau eraill ar y Fframwaith, fel cyflawni cymorth ar y cyd i hawlwyr ag anghenion cymhleth, yn golygu y bydd angen cymysgedd amrywiol o hawlwyr Credyd Cynhwysol, yn cynnwys nifer sylweddol ag anghenion lluosog, ac efallai y bydd angen aros am gyfnod yn nes ymlaen yn y broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol i allu profi'r rhain yn briodol.

Caiff profion ar wasanaethau ar gyfer hawlwyr Credyd Cynhwysol eu cyfyngu yn y lle cyntaf i brofion cynnar o geisiadau syml yn y 4 ardal Arbrofol9, ac yn y 6 ardal Canolfan Byd Gwaith yng Nghymru, Lloegr a'r Alban10 sy'n cael eu gweithredu fel rhan o'r broses barhaus o gyflwyno Credyd Cynhwysol yn genedlaethol rhwng mis Hydref 2013 a mis Mawrth 2014. Bydd cynlluniau a gyhoeddwyd yr wythnos hon yn gweld ehangu'r gwasanaeth byw i gynnwys cyplau, teuluoedd ac ardal ddaearyddol ehangach, a fydd yn rhoi cyfle pellach i brofi mewn amgylchedd byw.

Fodd bynnag, bydd hefyd cyfleoedd i brofi agweddau ar y Fframwaith drwy 'gysgodi' yn y safleoedd hyn a safleoedd eraill nad ydynt wedi cyflwyno gwasanaeth Credyd Cynhwysol eto.  Mae hyn yn cyfeirio at brofi arfer da ar gyfer gweithio mewn partneriaeth er mwyn rhoi egwyddorion allweddol y Fframwaith ar waith, hyd yn oed cyn i Gredyd Cynhwysol gael ei gyflwyno.

**Mae rhai cynghorau a rheolwyr y Ganolfan Byd Gwaith eisoes yn achub y blaen drwy fabwysiadu a phrofi egwyddorion y Fframwaith gyda hawlwyr wrth baratoi ar gyfer cyflwyno Credyd Cynhwysol yn llawn. Credwn ei bod yn werth i gynghorau weithio gyda'r Ganolfan Byd Gwaith i wneud hyn ac rydym yn awyddus i gynnig cyngor ac arweiniad er mwyn sicrhau llwyddiant y mentrau hyn. Nodir rhai enghreifftiau o arfer da yn Atodiad A.**

Mae **Atodiad D** yn dangos prosbectws treialu a awgrymir ar gyfer sut rydym yn bwriadu gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu adnoddau i gefnogi'r broses o gyflwyno'r Fframwaith.

9.Ashton-under-Lyne, Wigan, Warrington, Oldham.
10. Hammersmith, Rugby, Inverness, Harrogate, Caerfaddon.

# Adran 5: Sefydlu lefel y cymorth sy'n ofynnol ar gyfer Credyd Cynhwysol

## Bydd angen cydweithio i nodi a sefydlu'r lefel a'r math o wasanaethau cymorth a fydd yn ofynnol i gynorthwyo hawlwyr i wneud a chynnal cais Credyd Cynhwysol.

Caiff ei arwain gan Reolwyr y Ganolfan Byd Gwaith a chydweithwyr llywodraeth leol, ar y cyd â phartneriaid eraill. Bydd cwblhau'r gwaith hwn cyn i Gredyd Cynhwysol gael ei gyflwyno yn helpu i baratoi'r ffordd ar gyfer cyflenwi Credyd Cynhwysol a cheir enghreifftiau ardderchog ledled y wlad o sut y cynhelir y gweithgarwch hwn.

Ceir un enghraifft o'r fath ym Mwrdeistrefi Lambeth, Lewisham a Southwark yn Llundain, sydd wedi defnyddio adnoddau mapio Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol newydd i nodi pa wasanaethau sydd eisoes yn bodoli; pa wasanaethau y bydd angen eu sefydlu pan gaiff Credyd Cynhwysol ei gyflwyno; pwy sy'n darparu'r gwasanaethau hynny ar hyn o bryd a phwy all eu darparu yn y dyfodol; pa fylchau sy'n bodoli; beth yw'r costau presennol ar gyfer y gwasanaethau hynny; sut yr ariennir y gwasanaethau ar hyn o bryd ac o ble y daw'r arian; a pha alw sy'n debygol o fod am wasanaethau cymorth lleol pan gaiff Credyd Cynhwysol ei gyflwyno. Ceir rhagor o wybodaeth am fanteision mabwysiadu dull o'r fath cyn cyflwyno Credyd Cynhwysol ymhellach yn **Atodiad Dd**.

Mae'r adnodd mapio hwn yn cynnig amrywiaeth eang o ddisgrifiadau o'r gwasanaethau eang (gweler **Atodiad E**) a fydd yn ofynnol i gefnogi'r broses o ddarparu Credyd Cynhwysol fel y gellir gwneud cais amdano a chynnal y cais ar-lein lle y bo'n briodol, a bydd ar gael ymhen amser.

**Awgrymir y dylai Rheolwyr Dosbarth y Ganolfan Byd Gwaith a chynghorau ddatblygu'r ymarfer mapio hwn ar y cyd cyn gynted â phosibl mewn ardaloedd nad yw ar gael ar hyn o bryd.**

Mae nifer o ffynonellau data defnyddiol eraill y gellir eu defnyddio i helpu cydweithwyr i ddeall y sefyllfa leol yn well. Er enghraifft, bydd y ddolen isod yn tywys cydweithwyr yn syth i'r ystadegau llwyth achosion Budd-dal Tai diweddaraf. https://sw.stat-xplore.dwp.gov.uk/webapi/jsf/tableView/crosstabTableView.xhtml

Dangosir enghreifftiau o'r math o wybodaeth y gellir ddod o hyd iddi yn y ddolen uchod isod:

Mae'r ddolen hon yn dangos y llif ar gyfer pob ALlau o 2008 i fis Mai 2013. https://www.gov.uk/government/publications/experimental-housing-benefit-and-council-tax-benefit-flows-data-november-2008-to-present

Mae'r ail ddolen hon yn dangos ble y gellir ddod o hyd i'r ystadegau diweddaraf a gyhoeddwyd o lwyth achosion: https://www.gov.uk/government/collections/housing-benefit-and-council-tax-benefit-caseload-statistics--2]

# Adran 6: Ariannu gwasanaethau cymorth lleol

## Datblygwyd y Fframwaith i sicrhau y caiff hawlwyr wasanaeth lleol mwy cyfannol ac ar y cyd, sy'n adeiladu ar y cymorth a ddarperir eisoes gan DWP, cynghorau a phartneriaid eraill, fel darparwyr tai, elusennau a gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Yn ogystal â sicrhau canlyniadau gwell i hawlwyr, dylai'r gwasanaeth sicrhau bod llywodraeth ganolog a llywodraeth leol yn defnyddio adnoddau yn fwy effeithiol ac yn osgoi dyblygu costau.

**Cyllid penodol y Fframwaith**
Nododd y Fframwaith y byddai angen cyllid newydd i adlewyrchu'r cymorth ychwanegol a ddarperir i rai hawlwyr sydd angen cymorth i gael budd-daliadau ac sydd angen help i fynd ar-lein a rheoli cyllid eu cartref. Mae DWP a Chymdeithasau Awdurdod Lleol yn parhau i gydweithio i bennu lefel y cyllid y bydd ei angen. Bydd y gwasanaethau cymorth lleol a sefydlir o fewn ardaloedd Arbrofol a'r 6 safle cyflwyno ychwanegol, yn llywio ymhellach ein dealltwriaeth o gostau'r gwasanaeth yn y dyfodol. Byddwn yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau a ddarperir gan bob partner yn cael eu costio fesul gweithgarwch. Bydd hyn yn cynorthwyo wrth ddangos y gwerth am arian y mae gwasanaeth cymorth lleol yn ei gynrychioli i'r trethdalwr. Byddwn yn treialu dulliau o ganfod costau cynorthwyo'r hawlwyr tra'n sicrhau bod y broses o gasglu data yn golygu'r baich lleiaf ar staff rheng flaen. Mae rhagor o wybodaeth am y dull rheoli arian ar gael yn **Atodiad Ch**.

**Llifau ariannu eraill**
Dim ond ar gyfer gwasanaethau y mae'r galw amdanynt newydd godi neu wasanaethau sydd wedi gweld cynnydd yn eu llwyth gwaith o ganlyniad uniongyrchol i Gredyd Cynhwysol y bydd arian y Fframwaith ar gael. Ni fydd rhai sefydliadau sy'n rhan o'r broses o ddarparu gwasanaethau yn cael arian y Fframwaith ond byddant yn cael budd o ddull mwy cyfunol. Er enghraifft, caiff y Gwasanaeth Prawf yn Lloegr ei ariannu eisoes i gynorthwyo'r rheini sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar i fanteisio ar y system budd-daliadau.

Bydd gan lawer o wasanaethau eraill a allai ychwanegu gwerth at y partneriaethau lifoedd ariannu ar waith eisoes, ac i lawer, ni fydd newid y modd y darperir budd-daliadau yn fusnes craidd iddynt ond bydd yn agwedd bwysig ar ddarparu gwasanaeth cyflawn i'r bobl sy'n eu cynorthwyo. Mae dull y Fframwaith yn cynnig y posibilrwydd o ddefnyddio gwasanaethau ac adnoddau presennol ac nid yw'n llwyr ddibynnol ar arian newydd.

Wrth fapio darpariaeth gwasanaethau lleol presennol bu hefyd yn bosibl nodi llifau ariannu presennol a allai gael eu halinio er mwyn sicrhau gwerth ychwanegol i'r holl bartneriaid. Mae hyn yn cynnwys lle y caiff gwasanaethau cymorth lleol eu darparu ar hyn o bryd ond hefyd ddarpariaeth ategol arall fel cynhwysiant digidol mewn llywodraeth leol neu'r ymrwymiad parhaus i ddatblygu digidol yn y Ganolfan Byd Gwaith. Dylai alinio ein blaenoriaethau yn ogystal â'r cyllidebau sylfaenol lle y bo'n bosibl sicrhau cydweithio gwell, canlyniadau gwell ac mewn rhai achosion hefyd werth am arian gwell.

Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn rhoi darlun o wasanaethau sy'n debygol o fod yn ofynnol i gefnogi Credyd Cynhwysol, ac awgrym o'r ffynonellau tebygol neu bosibl o gyllid[11] ar gyfer pob un. Mae'n seiliedig ar rywfaint o waith cychwynnol gyda nifer o fwrdeistrefi i edrych ar ba wasanaethau sydd eisoes yn eu lle, a beth fydd ei angen. Gall hyn gynnwys datblygu gwasanaethau newydd, neu ehangu neu wella rhai presennol. Rydym yn disgwyl y bydd angen rhywfaint o newid i ymdopi â'r galw ychwanegol, neu bwyslais newydd yng nghwmpas ac amrywiaeth y gefnogaeth.

Er ei fod yn defnyddio data go iawn o'r ardaloedd sydd wedi'u cynnwys, esiampl yw'r tabl yn unig ac ni fwriedir iddo fod yn rhagnodol nac yn gynhwysfawr. Rydym yn gobeithio y bydd yn rhoi rhai awgrymiadau defnyddiol i helpu partneriaethau lleol rheoli adnoddau'n effeithiol, a nodi a gwneud y mwyaf o'r cyllid sydd ar gael.

Byddai gennym ddiddordeb mewn clywed gan bartneriaethau a all fod â syniadau newydd a / neu arloesol ar gyfer gwneud y gorau o llifau ariannu presennol i ddarparu gwasanaethau'r Credyd Cynhwysol.

11. Nid yw'r rhestr o ffynonellau ariannu yn gynhwysfawr - gall fod ffynonellau ariannu eraill y gallai partneriaethau o bosibl ddefnyddio i ddatblygu neu wella eu cynnig gwasanaeth.

## Enghraifft ar ffurf darlun i ddangos yr elfennau o wasanaethau y mae'n debygol y bydd eu hangen i gefnogi hawlwyr Credyd Cynhwysol a ffynonellau ariannu presennol[12]

| | Llinell Gwasanaeth | Rhoi cyngor a gwybodaeth sylfaenol er mwyn helpu rhywun i wneud cais | | | Mynediad Digidol | | Cymorth Canolraddol | | Cynhwysiant Ariannol | | | Cymorth Cyllidebu Personol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | | Nodi achosion APA | |
| | Disgrifiad o'r Gwasanaeth | Rhoi gwybodaeth sylfaenol | Brysbennu a chyfeiriadu | Cyngor / Cymorth ar Hawliau Lles | Mynediad Ar-lein | Gwneud cais yn ddigidol â chymorth | Cymhorthion hygyrchedd | Cymorth anghenion cymhleth | Cymorth bancio | Cynhyrchion ariannol | Cyngor ariannol a chymorth cyllidebu | Nodi taliadau Eithriadau | Cyfeirio eithriadau |
| Arian Funding | Cronfa Cymorth Hyblyg | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | | | | |
| Arian ALl | Cronfa Gyffredinol y Cyngor | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | |
| | Grant Gweinyddu Budd-dal Tai (DWP) | ✓ | | | | | | | | | | ✓ | ✓ |
| | Arian y Dirwasgiad (DWP) | ✓ | | | | | | | | | | | |
| | Arian Baich Newydd (DWP) | ✓ | | | | | | | | | | | |
| Arian Allanol | Arian Rhaglen y Loteri Fawr | | | | | | | ✓ | | | | | |
| | Cronfa Gymdeithasol Ewrop | | ✓ | | | | | ✓ | | | ✓ | | |
| Arian Peilot | Arian DPDP DWP | ✓ | ✓ | ✓ | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| | Arian Peilot dan arweiniad ALl DWP | | ✓ | ✓ | | | | ✓ | | ✓ | | | |
| Arall | Er enghraifft, Gwasanaeth Cyngor ar Arian | | | | | | | | | ✓ | | | |


12. Ffynonellau eraill o arian –Mae'r **Cyfrif Cyllid Tai** a ddefnyddir i ariannu'r stoc tai a chymorth llety anghenion arbennig, **Taliadau Tai Gorddewisol** a **darpariaeth lles lleol** sy'n darparu cymorth ariannol i hawlwyr - ac maent yn rhan o'r patrwm o gymorth y gall ALlau eu darparu i hawlwyr sydd angen cymorth ychwanegol.

**Y Fframwaith a Chronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer ALlau yn Lloegr**

Ar gyfer 2014-2020, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu ar gyfer Lloegr, y bydd Partneriaethau Menter Lleol yn datblygu strategaethau ar gyfer manteisio ar gronfeydd strwythurol a buddsoddi yr Undeb Ewropeaidd (UE). Mae'r rhain yn cynnwys Cronfa Gymdeithasol Ewrop a fydd yn canolbwyntio ar sgiliau cyflogaeth a chynhwysiant cymdeithasol. Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban sy'n gyfrifol am arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn eu hardaloedd. Credwn fod ardaloedd lle mae'r Fframwaith a'r blaenoriaethau ar gyfer Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn gorgyffwrdd. Mae hyn yn rhoi cyfle posibl i bartneriaethau lleol y Fframwaith fanteisio ar arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop i gefnogi elfennau o daith yr hawliwr.

Ar hyn o bryd, mae Partneriaethau Cyflogaeth Lleol yn datblygu eu strategaethau ac yn datblygu eu rhaglenni gweithredol ar gyfer Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Felly, mae'n bwysig bod partneriaethau lleol yn siarad â'u Partneriaethau Cyflogaeth Lleol am y Fframwaith a'r mathau o wasanaethau a ddarperir a ble y gellir cael cyfleoedd i gael gafael ar arian. Mae Partneriaethau Cyflogaeth Lleol hefyd yn cael eu hannog i weithio gyda'u Rheolwyr Dosbarth y Ganolfan Byd Gwaith a chynghorau.

Er mwyn cefnogi hyn ymhellach rydym ar hyn o bryd yn gweithio gyda llywodraeth leol i ddatblygu cynnig am arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop o dan y rhaglen bresennol sy'n dod i ben yn 2015, a all weithredu fel esiampl ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn lleol.



# Adran 7: Rhannu gwybodaeth

## Rydym yn rhagweld y bydd Rheolwyr Dosbarth y Ganolfan Byd Gwaith a Rheolwyr Phartneriaeth yn gweithio gyda chynghorau ac asiantaethau lleol eraill, fel sefydliadau Tai a'r sector gwirfoddol a chymunedol, i gynllunio a gweithredu dull cyfannol ar y cyd o gynorthwyo pob hawlydd, yn cynnwys y rheini ag anghenion cymhleth sy'n cael cymorth gan sawl asiantaeth ar hyn o bryd

**Lle y bo'n bosibl, hoffem weld partneriaethau'n gweithio tuag ag yr egwyddor o daith gyfun i hawlwyr, a rennir rhwng y gwahanol asiantaethau fel bod pob un sy'n rhan o'r broses o gynorthwyo'r hawlydd yn dilyn yr un cynllun ar gyfer helpu'r unigolyn hwnnw i wneud cais am Gredyd Cynhwysol a chynnal y cais ac yna i symud tuag at fod yn fwy annibynnol a, lle y bo'n bosibl, yn barod i weithio.**

Bydd angen i staff DWP, llywodraeth leol a phartneriaid eraill allu rhannu data unigol ac ar y cyd (i'r graddau y mae'n berthnasol i rôl pob un ohonynt neu'r gwasanaeth a ddarperir ganddynt) er mwyn sicrhau y cynhelir proses gynllunio strategol ystyrlon sy'n ymateb i newidiadau dros amser. Efallai y bydd angen iddynt allu trafod ceisiadau yn ddigon manwl, er enghraifft, i sicrhau y gellir cyfnewid gwybodaeth ac atgyfeirio'n briodol fel y rhagwelir yn null y Fframwaith.

Mae rhywfaint o ddarpariaeth o hyd o fewn y ddeddfwriaeth a fwriedir i hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth rhwng DWP a llywodraeth leol o dan amgylchiadau penodol. Nid yw hyn yn cwmpasu pob sefyllfa bosibl ac rydym hefyd yn cydnabod yr angen i barchu hawl hawlydd i breifatrwydd. Felly, at ddibenion treialu, rydym yn bwriadu rhannu gwybodaeth drwy gydsyniad yr hawlydd. Bydd angen trafod hyn gyda'r hawlydd ymlaen llaw er mwyn sicrhau ei fod yn gwybod pwy fydd yn cael gwybodaeth am ei achos a sut y defnyddir y wybodaeth. Yn achos data bersonol sensitif, byddwn yn cael cydsyniad deallus a chlir ymlaen llaw. Fel rhan o'r broses dreialu, bydd DWP yn profi dulliau o rannu gwybodaeth a data rhwng asiantaethau gwahanol lle y bo'n berthnasol i elfennau o ddewislen treialu'r Fframwaith.

Rydym yn cydnabod bod prosesau rhannu data eisoes yn mynd rhagddynt yn y Prosiectau Peilot a arweinir gan ALl a'r ardaloedd gwasanaethau byw rhwng DWP a chynghorau. Mae cytundebau wedi cael eu llofnodi yn yr ardaloedd hyn ac fel rheolwyr data unigol mae'n rhaid i bob ochr fodloni ei hun bod y data'n cael eu rhannu yn unol â'r gyfraith. Wrth ddatblygu eu modelau eu hunain ar gyfer rhannu data mewn modd cyfreithlon ac effeithiol, efallai y bydd yn ddefnyddiol i bartneriaid Gwasanaethau Cymorth Lleol gyfeirio at ganllawiau rhannu data lleol y Rhaglen Teuluoedd Cythryblus[13] a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2013. Mae'n nodi protocolau a argymhellir ac arfer da ar gyfer rhannu data/gwybodaeth drwy gydsyniad. Mae'n cynnwys arfer a argymhellir mewn perthynas â chynadledda achosion ymysg sawl asiantaeth ac yn cyfeirio at y canllawiau cyfreithiol ar rannu data. Mae hefyd yn cynnwys canllawiau ar femorandwm dealltwriaeth a ffurflenni cydsyniad cynadledda achosion ymysg sawl asiantaeth. Er y datblygwyd y canllawiau hyn yn benodol ar gyfer y Rhaglen Teuluoedd Cythryblus (rhaglen yn Lloegr yn unig) ac felly na fydd yn briodol ar gyfer gwasanaethau'r Fframwaith ym mhob achos, gall fod yn ddechreubwynt defnyddiol ar gyfer partneriaid sy'n bwriadu cynnal gwasanaethau amlasiantaeth drwy gydsynio.

Yng Nghymru, mae Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) yn rhoi fframwaith i ddarparwyr gwasanaethau ar gyfer rhannu'r data personol sydd ganddynt am unigolion mewn modd cyfreithlon a deallus ac ar gyfer datblygu protocolau rhannu gwybodaeth lle y bo'r angen[14].

13. Gallwch gael gopi drwy gysylltu â'ch Ymgynghorydd Cyflogaeth Teuluoedd Cythryblus lleol.
14. Llofnodwyd Cytundeb WASPI gan yr holl 22 ALl, yr holl 10 bwrdd iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG, yr holl 4 heddluoedd, 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yn ogystal â thua 60 sefydliad.

# Adran 8: Edrych i'r dyfodol

**Dull gweithio mewn partneriaeth gymunedol**
Mae cyllidebau cymunedol a chymdogaethol yn Lloegr yn caniatáu i wasanaethau gael eu hailgynllunio'n lleol ac i gyllidebau gael eu cyfuno ar draws ffiniau sefydliadol er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a gwella gwasanaethau, yn enwedig mewn cymunedau lle ceir anghenion cymhleth.

Profodd y llywodraeth y cysyniad o gyllidebau cymunedol drwy weithio gydag 16 o ardaloedd er mwyn helpu teuluoedd cythryblus. Bydd y cam nesaf o gyllidebau cymunedol yn rhoi mwy o ryddid i 4 ardal ALl a 10 prosiect peilot ar lefel gymdogaethol uno gwasanaethau a chyllidebau. Bydd prosiectau peilot lle cyfan yn rhoi'r rhyddid i bartneriaid gwasanaethau cyhoeddus lleol ailgynllunio gwasanaethau a datganoli'r broses o'u rheoli, a'u cyllido, i'r lefel isaf posibl. Bydd hyn yn lleihau anghydraddoldebau o ran mynediad i wasanaethau da.

Byddwn yn archwilio'r dull hwn wrth i ni edrych ymlaen a datblygu'r Fframwaith diwygiedig yn ystod hydref 2014.

**Paratoi er gyfer y broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol y Fframwaith**
O'r flwyddyn newydd, byddwn yn profi agweddau allweddol o'r Fframwaith, yn gweithio gyda'r ardal Arbrofol ac adrannau gwasanaeth byw ychwanegol a manteisio ar ehangu graddol y mathau o hawlwyr a lleoliadau, i edrych ar:

- Effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth, yn seiliedig ar anghenion lleol a chan ganolbwyntio ar gynorthwyo hawlwyr i fanteisio ar bob gwasanaeth yn annibynnol ac i fod yn barod i weithio;
- Rhai o'r modelau ariannu y bydd eu hangen i gefnogi'r bartneriaeth;
- Darparu'n effeithiol wasanaethau rheng flaen sy'n sicrhau proses syml i gwsmeriaid ac yn annog effeithlonrwydd sefydliadol.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda chynghorau peilot a chynghorau eraill a dosbarthau'r Ganolfan Byd Gwaith sydd wedi dewis rhoi dull y Fframwaith ar waith cyn y broses gyflwyno ehangach er mwyn datblygu arfer da i gynorthwyo eraill.

**Rydym yn annog pob Rheolwr Dosbarth y Ganolfan Byd Gwaith a chynghorau i barhau i greu cysylltiadau a sefydlu partneriaethau lleol i brofi a datblygu argymhellion mewn perthynas ag arferion da ar gyfer elfennau allweddol o arlwy'r Fframwaith, er enghraifft, brysbennu, cymorth digidol, cyngor ac arweiniad ariannol, rheoli achos mewn perthynas ag anghenion cymhleth ac alinio â Gwasanaethau Gwaith DWP yn yr un ffordd ag y bydd y prosiectau peilot yn ei wneud wrth iddynt brofi drwy gysgodi.**

Rydym hefyd yn parhau i hyrwyddo prosesau mapio lleol a dadansoddi bylchau mewn gwasanaethau sydd ar gael i gynorthwyo hawlwyr Credyd Cynhwysol wrth baratoi ar gyfer y broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol yn ogystal â sicrhau bod sefydliadau'n cydweithio'n agosach. Er mwyn paratoi i gyflwyno'r Fframwaith, efallai y bydd sefydliadau am ystyried:

- Mapio ac adolygu gwasanaethau a chymorth perthnasol a ddarperir i gleientiaid o ddibyniaeth ar fudd-daliadau tuag at annibyniaeth ac i mewn i waith lle bynnag y bo'n bosibl;
- Ymgysylltu â sefydliadau mantell a chyrff cynrychioliadol priodol, er mwyn datblygu dealltwriaeth ehangach a nodi materion sy'n codi;
- Ymgysylltu mwy ag eraill sy'n cynorthwyo hawlwyr ag anghenion cymhleth yn lleol.

**Gan gofio hyn byddai gennym ddiddordeb mewn clywed gan bartneriaethau a fyddai'n hoffi dangos diddordeb ffurfiol mewn treialu dull y Fframwaith yn swyddogol cyn cyflwyno Credyd Cynhwysol yn ehangach.**

Hoffem glywed pa gynlluniau sydd ganddynt i roi'r Fframwaith ar waith yn eu hardal a pha elfennau o'r prosbectws fyddai'n addas i'w treialu yn eu lleoliad yn eu barn hwy. Byddem yn annog DWP ac ALlau i rannu eu cynlluniau neu eu syniadau gyda'i gilydd, a dechrau trafod y posibilrwydd o ddarparu gwasanaethau'r Fframwaith ar lefel leol unigol.

**Bydd cyfle i ddysgu mwy, i rannu syniadau ac i drafod cynigion ar y cyd ar gyfer profi a threialu'r Fframwaith mewn cyfres o sioeau teithiol y Fframwaith gan DWP a llywodraeth leol y bwriedir iddynt gael eu cynnal yn gynnar y flwyddyn nesaf yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Caiff gwahoddiadau a manylion pellach eu dosbarthu maes o law.**

# Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Anghenion Cymhleth | Hawlydd ag anghenion sy’n golygu bod angen cymorth manwl a pharhaus ac na ellir eu diwallu gan un trafodyn neu gyswllt penodol. |
| Anghenion Hawlwyr | Nodweddion penodol hawlwyr sy’n golygu bod angen rhyngweithio â Chredyd Cynhwysol mewn ffordd benodol a/neu gyda chymorth penodol er mwyn gwneud hynny’n llwyddiannus. |
| Amodoldeb | Mae’n rhaid i’r hawlydd fodloni rhai gofynion penodol er mwyn derbyn budd-daliadau. O dan Credyd Cynhwysol, bydd pedwar math o ofyniad sy’n gysylltiedig â gwaith:<br>• cyfweliad sy’n canolbwyntio ar waith • paratoi at waith • chwilio am waith • argaeledd i weithio<br>Caiff gofynion eu teilwra lle y bo’n briodol i adlewyrchu amgylchiadau a gallu hawlydd. |
| Brysbennu | Y broses o sicrhau bod hawlwyr yn cael cymorth priodol i wneud cais a rheoli Credyd Cynhwysol, yn unol â’u hanghenion. |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | Mae Cyfiawnder Cymdeithasol yn ddull gan y llywodraeth o fynd i’r afael â phob math o dlodi drwy:<br>• Atal ac ymyrryd cynnar; • Adfer ac annibyniaeth, yn hytrach na chynhaliaeth;<br>• Hyrwyddo gwaith fel y llwybr mwyaf cynaliadwy allan o dlodi;<br>• Cynorthwyo’r rheini ag anabledd difrifol ac na allant weithio;<br>• Cynllunio a chyflwyno atebion effeithiol yn lleol;<br>• Sicrhau bod pob cam ymyrryd yn deg i’r trethdalwr. |
| Cyngor Ariannol (rhan o PBS) | Bydd cyngor ariannol yn helpu hawlwyr sy’n hawlio Credyd Cynhwysol i ymdopi â’r gwaith o reoli eu harian yn fisol a thalu eu biliau, gan gynnwys rhent, ar amser. |
| Cymorth Cyllidebu Personol (PBS) | Bydd Cymorth Cyllidebu Personol yn helpu hawlwyr â’r newidiadau ariannol allweddol sy’n dod gyda Chredyd Cynhwysol:<br>• taliad cartref safonol; • talu’n fisol; • gyda chostau tai a dalwyd yn uniongyrchol i’r hawlydd. |
| Cymorth Gwasanaethau Gwaith | Y r amrywiaeth o gymorth ac ymyriadau sydd ar gael i gynnal ymrwymiad ac amodoldeb hawlydd. |
| Cynhwysiant Ariannol | Bydd cynhwysiant ariannol yn golygu cael mynediad i ystod briodol o gynhyrchion a gwasanaethau ariannol sy’n caniatáu i hawlwyr i reoli eu harian yn effeithiol beth bynnag eu lefel o incwm neu statws cymdeithasol. |
| Cytundeb Partneriaeth Cyflenwi | Cytundeb lleol rhwng DWP a’r cyngor (neu grŵp o gynghorau) i ddarparu a rheoli’r gwasanaethau sydd eu hangen er mwyn darparu’r Credyd Cynhwysol yn effeithiol. |
| Diagnosis | Y broses o asesu anghenion hawlydd ar adeg y cyswllt cyntaf a nodi cymorth priodol. |
| Partneriaid Cyflenwi | Darparwyr gwasanaethau lleol a fydd yn cydweithio â DWP a rhanddeiliaid perthnasol eraill ac a fydd â’r gallu, yr adnoddau a’r hyblygrwydd i ddarparu cymorth a diwallu anghenion hawlwyr lleol. |
| Profi drwy Gysgodi | Profi arfer da ar gyfer gweithio mewn partneriaeth er mwyn rhoi egwyddorion allweddol y Fframwaith ar waith, cyn i Gredyd Cynhwysol gael ei gyflwyno hyd yn oed. |
| Taith Gyfun Hawlydd | Trefniadau lleol i helpu hawlwyr ag anghenion cymhleth i symud tuag at fod yn annibynnol, yn hunangynhaliol a (lle y bo’n bosibl) yn barod am waith. Dylai pob darparwr gwasanaethau ddilyn y trefniadau hyn, gan sicrhau bod y cymorth a roddir i hawlwyr yn teimlo’n gyfannol ac yn gydgysylltiedig ac nad yw hawlwyr yn cael negeseuon neu gyfarwyddiadau croes gan asiantaethau gwahanol. |
| Trefniadau Talu Amgen (rhan o PBS) | Bydd Trefniadau Talu Amgen yn helpu hawlwyr na all yn wirioneddol reoli’r taliadau misol safonol a lle mae risg o niwed ariannol i’r hawlydd neu ei deulu. Gallai hyn gynnwys rhent a delir yn uniongyrchol i’r landlord, taliad mwy aml na misol, neu daliad rhannol rhwng partneriaid. |

# Atodiad A: Arfer Da a Gwersi a Ddysgwyd[15]

Mae'r detholiad o arfer da a gwersi a ddysgwyd dilynol wedi cael eu casglu o amrywiaeth o ffynonellau. Lle mae'r ffynhonnell yn adroddiad a gyhoeddwyd, mae'r cyfeiriad yn anodedig i ganiatáu'r darllenydd gweld yr adroddiad trwy'r dolenni isod ac i ddysgu mwy.

1. Gwasanaeth Llywodraeth Leol, Local Government and UC, June 2013
http://www.local.gov.uk/publications/-/journal_content/56/10180/4050723/PUBLICATION

2. Adran Gwaith a Phensiynau, 'LA Led Pilots: A summary of early learning from the pilots,' July 2013
https://www.gov.uk/government/publications/local-authority-led-pilots-a-summary-of-early-learning-from-the-pilots

3. Adran Gwaith a Phensiynau, 'Direct Payments Demonstration Projects: Learning the lessons six months in', Mai 2013
http://www.shu.ac.uk/research/cresr/sites/shu.ac.uk/files/direct-payments-learning-lessons.pdf

4. DWP, An evaluation of the Jobseeker's Allowance Online Digital Trailblazers (One, Two and Three), Mai 2013
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/199046/ihr15.pdf

5. DWP, An evaluation of the Jobseeker's Allowance Online Digital Trailblazers Phases Two and Three, Hydref 2013
https://www.gov.uk/government/publications/jobseekers-allowance-online-digital-trailblazers-phases-2-and-3-evaluation

6. Llywodraeth yr Alban, Monthly benefit payments and types of budgeting support, May 2013,
http://www.scotland.gov.uk/Resource/0042/00422511.pdf

7. http://www.studiolife.org.uk/moneysavvy2/

8. SCVO welfare reform mapping report, Mai 2013,
http://www.scvo.org.uk/wp-content/uploads/2013/05/welfare-reform-mapping-report2.pdf

9. http://www.turningpointscotland.com/news/announcement-of-funding-for-hmp-low-moss-throughcare-service/

10. The implementation of UC and the support needs of claimants: a study by the Social Security Advisory Committee, Mai 2013
http://ssac.independent.gov.uk/pdf/occasional/implementation-uc-claimants.pdf

15. Noder: lle mae gwybodaeth wedi cael ei ddarparu gan bob un o'r ALlau; ni all canfyddiadau ac ystadegau sylfaenol a gyflwynir eu gwirio'n annibynnol gan ddadansoddwyr DWP.

## Arfer Da a Gwersi a Ddysgwyd - Brysbennu

| Lleoliad / Rhaglen | Arfer da a nodwyd | Gwersi a Ddysgwyd / Canlyniadau a Gyflawnwyd | Ffynhonnell a Gyhoeddwyd |
|---|---|---|---|
| **Cyngor Bwrdeistref Lewisham yn Llundain** | Wedi creu proses effeithiol ar gyfer nodi anghenion cymorth ychwanegol:<br>• Llythyr at gwsmer yn egluro newidiadau allweddol i fudd-daliadau a'r amcangyfrif o'r golled ariannol a ddaw yn sgil y cap ar fudd-daliadau<br>• Cysylltu â chwsmer ar gyfer cynnal asesiad brysbennu (dros y ffôn) gan ganolbwyntio ar sgiliau/profiad ar draws meysydd ariannol, digidol, tai a chyflogaeth. Mae'r sgript sydd wedi'i chynnwys yn y system Rheolwr Perthynas â Chwsmeriaid (CRM) yn rhoi sgorau ar gyfer yr atebion a roddir ac yna'n pennu a ystyrir bod y cwsmer yn 'agored i niwed', gan ysgogi'r angen am gael apwyntiad cymorth pellach os bydd yn briodol<br>• Apwyntiad wyneb yn wyneb wedi'i gynnal gan gyfrifo lefelau unigol.<br>• Cynllun cymorth unigol wedi'i greu, atgyfeiriadau priodol at asiantaethau allweddol sy'n gyfrifol am roi cymorth parhaus wedi'i deilwra at yr anghenion unigol a nodwyd | • Mae gwersi cynnar a ddysgwyd yn awgrymu, er y gall rhai hawlwyr ddechrau cael Credyd Cynhwysol yn seiliedig ar eu cynlluniau cymorth, y bydd angen i eraill gael cymorth estynedig.<br>• Mae cam arall yn cael ei ychwanegu at y model a fyddai'n cynnig cymorth ychwanegol i breswylwyr y mae angen cymorth dwysach arnynt. Mae Cyngor Bwrdeistref Lewisham yn gweithio gyda'r Tîm Deall Cipolygon Ymddygiadol o Swyddfa'r Cabinet i ddatblygu dull o reoli achosion a fydd yn gweld y tîm yn cynnig mwy o gymorth parhaus i rai cwsmeriaid | 1 |
| **Cyngor Bwrdeistref Metropolitana-idd Tameside** | • Fel rhan o fenter ar y cyd ym Manceinion Fwyaf mae Bws Budd-daliadau yn ymweld â threfi amrywiol i hyrwyddo cyngor ar fudd-daliadau<br>• Mae'r bws wedi ymweld ag ardaloedd arbrofol â chod post penodol ac mae mwy o ymweliadau wedi'u cynllunio | • Mae'r bws yn golygu bod gan gyngor ar fudd-daliadau y potensial i gyrraedd cymunedau mwy ynysig neu ddiarffordd, a hefyd y gall pobl gael gafael ar wybodaeth i ffwrdd o amgylchedd 'swyddogol' neu ffurfiol swyddfa Canolfan Byd Gwaith | 1 |
| **Cyngor Dinas Birmingham** | • Defnyddio ystafelloedd gosod tai cymdeithasol i gynnal prosesau brysbennu cychwynnol i gwsmeriaid<br>• Cynhelir cyfweliad 90 munud gyda phob tenant newydd er mwyn asesu ei anghenion o ran tai, cyflogaeth a rheoli arian<br>• Cynigir rhaglen gymorth 12 wythnos o hyd i denantiaid er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i ganolbwyntio ar amodau eu tenantiaeth ac yn cael yr help sydd ei angen arnynt i gynnal eu tenantiaeth | • Mae tystiolaeth gynnar yn awgrymu bod y broses brysbennu hon wedi helpu i sicrhau bod cwsmeriaid wedi cael yr arian y mae ganddynt hawl i'w gael - mwy na £10.4m hyd at ddiwedd mis Ebrill 2013 | 2 |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili** | • Wedi cynnal rhaglen eang o ymweliadau cartref i gynnwys cwsmeriaid mewn trafodaeth am newidiadau lles<br>• Mae gwybodaeth a gafwyd yn ystod arolwg byr a gynhaliwyd yn ystod pob ymweliad wedi bod yn werthfawr i'r cyngor | • Mae gostwng gwariant yn cynnwys cyngor ar arbed ynni a dŵr a chymorth ar gyfer gwneud cais am wasanaethau/cymorth, felly yn ogystal â bod yn ymwybodol o newidiadau lles, mae cwsmeriaid hefyd yn ymwybodol o sut y byddant yn effeithio ar gyllid eu cartref a'r camau y mae angen iddynt eu cymryd i leihau gwariant a/neu geisio cymorth arbenigol os yw'n briodol | 2 |

| Arfer Da a Gwersi a Ddysgwyd - Brysbennu | | | |
|---|---|---|---|
| **Lleoliad / Rhaglen** | **Arfer da a nodwyd** | **Gwersi a Ddysgwyd / Canlyniadau a Gyflawnwyd** | **Ffynhonnell a Gyhoeddwyd** |
| | • Mae pob cartref yr ymwelir ag ef yn cael cyngor ar ostwng gwariant ac, os yw'n briodol, caiff ei gyfeirio neu ei atgyfeirio at gymorth arbenigol (e.e. Canolfan Cyngor ar Bopeth (CAB) ar gyfer cyngor ar ddyled/cyllidebu, y Ganolfan Byd Gwaith ar gyfer cymorth cyflogaeth) | | |
| **Cyngor Dinas Dundee** | • Mae'r prosiect peilot yn rhedeg o haf 2013 i fis Mawrth 2014<br>• Wedi'i reoli a'i gyflawni gan y Grŵp Diwygio Lles yng Nghyngor Dinas Dundee, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol gyda chynrychiolaeth o'r meysydd busnes Hawliau Lles, Tai, Cynhwysiant Ariannol, Technoleg Gwybodaeth, Budd-dal Tai a Datblygu Economaidd<br>• Mae cwsmeriaid Dinas Dundee wedi cael eu gwahodd i fynd i bwyntiau mynediad amrywiol ledled y ddinas i ystyried sut y gallai'r broses o ddiwygio lles effeithio arnynt. Maent yn ateb nifer o gwestiynau sy'n arwain at lunio cynllun gweithredu ar rai themâu, fel cyflogadwyedd; gwybodaeth a chyngor; tai; tlodi tanwydd, ac ati<br>• Mae'r system yn creu atgyfeiriad awtomatig at wasanaethau perthnasol a chaiff data ar y cwsmer eu hanfon at y darparwr gwasanaeth priodol, sy'n olrhain y mater yn bersonol gyda'r cwsmer. Caiff canlyniadau eu cofnodi ac yna gellir eu holrhain ar draws yr holl wasanaethau<br>• Caiff y data eu creu o wybodaeth sydd eisoes ar gronfa ddata cwsmer neu gyfrif dinesydd a gaiff ei greu o ddata treth gyngor<br>• Prif nod y prosiect peilot yw gwella'r broses asesu ac atgyfeirio a gynhelir gan staff rheng flaen, gan ganiatáu i asiantaethau gael gafael ar wybodaeth well yn gyflymach er mwyn helpu i ddatrys problemau a gyflwynir gan gleientiaid a chyrraedd y canlyniad terfynol yn gyflymach, gan osgoi asesiadau anghywir<br>• Drwy ddatblygu dull cyfannol at ofal cwsmeriaid, caiff staff rheng flaen sy'n darparu gwasanaethau cyngor eu hyfforddi i adnabod arwyddion tlodi ac amddifadedd ac anawsterau ariannol sy'n deillio o ddigwyddiadau bywyd er enghraifft, a byddant yn gallu cynnig mynediad hawdd a chyflym, yn aml drwy atgyfeiriadau uniongyrchol, at gyngor arbenigol gan wasanaethau cyngor a phartneriaid | • Mae'r cynllun gweithredu wedi arwain cwsmeriaid at wasanaethau yn enwedig cyflogadwyedd<br>• Newid sylweddol mewn morâl ac ymroddiad staff wrth iddynt weld canlyniadau gwirioneddol<br>• Partner trydydd sector yn hanfodol fel rhywun yr ymddiriedir ynddo fel darparwr gwasanaethau cyngor a chymorth cyllidebu<br>• Buddiannau ehangach gwasanaethau cyhoeddus cydgysylltiedig | **Dd/G** |

## Arfer Da a Gwersi a Ddysgwyd - Cynhwysiant Digidol

| Lleoliad / Rhaglen | Arfer da a nodwyd | Gwersi a Ddysgwyd / Canlyniadau a Gyflawnwyd | Ffynhonnell a Gyhoeddwyd |
|---|---|---|---|
| **Y Pwyllgor Ymgynghori ar Nawdd Cymdeithasol** | • Mae gallu'r broses Credyd Cynhwysol i nodi anghenion cymorth yn hanfodol, ac mae'r natur agored i niwed newidiol yn nodi pwysigrwydd cymryd sawl cyfle i asesu anghenion cymorth hawlwyr ar bob cam<br>• Caiff bod yn hunangynhaliol ei gydnabod fel nod pwysig i bob hawlydd, yn cynnwys y rheini y cydnabyddir eu bod angen cymorth fwyaf, er enghraifft y rheini ag anableddau dysgu<br>• Mae'n bwysig nodi'r lefelau cymorth amrywiol sydd eu hangen dros amrywiaeth o amserlenni yn unol ag angen hawlwyr unigol<br>• Mae llawer o hawlwyr yn debygol o fod angen cymorth â chyfyngiad amser yn y byrdymor, ac efallai y bydd angen i eraill gael cymorth parhaus i'w galluogi i reoli cais Credyd Cynhwysol dros amser | • Mae'r cynllun gweithredu wedi arwain cwsmeriaid at wasanaethau yn enwedig cyflogadwyedd | **10** |
| **Prosiectau peilot dan arweiniad ALlau** | • Mae canfyddiadau cynnar yn awgrymu na cheir llawer o ymwybyddiaeth y caiff Credyd Cynhwysol ei gyflwyno'n ddigidol<br>• Mae'n cymryd amser i gynorthwyo pobl i fynd ar-lein mewn modd dibynadwy ac mae gwahanol fathau o rwystrau y mae angen mynd i'r afael â hwy.<br>• Nid oes gan lawer o hawlwyr gyfrifon e-bost personol | • Er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg ymwybyddiaeth hwn, mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) wedi cynnwys rhestr wirio 'paratoi' ar gyfer cynghorau sy'n cynnwys cwestiynau fel a ganlyn:<br>  • Pa mor gynhwysfawr yw eich pecyn band eang?<br>  • Ydych chi wedi mapio mannau lle ceir mynediad cyhoeddus i'r rhyngrwyd?<br>  • Oes gennych chi hyrwyddwyr digidol/pa fath o hyrwyddwyr digidol sy'n bodoli? | **1** |
| **Canolfan Cyngor ar Bopeth Northampton** | • Ers 2010 maent wedi bod yn cynnig hyfforddiant ar-lein<br>• Wedi canfod bod nifer y ceiswyr gwaith a oedd yn cofrestru yn cynyddu ond bod hyn wedi arwain at newid yn y math o hyfforddiant ar-lein a gynigir yn y ganolfan, gan symud o ddull cyffredinol at un sy'n effeithio'n ymarferol ar y rheini sy'n chwilio am waith, yn enwedig yn sgil cyfleuster Paru Swyddi Ar-lein DWP a gyflwynwyd yn ddiweddar ym mis Tachwedd 2012 a'r diffyg hyfforddiant penodol i bobl amhrofiadol ac agored i niwed y mae'n ofynnol iddynt ei ddefnyddio<br>• Dangosir i hawlwyr sut i sefydlu cyfrif Paru Swyddi Ar-lein a'u tasg olaf yw cyflwyno cais am swydd ar-lein | • Wedi datblygu dull mwy ymarferol oherwydd y canfuwyd ei fod yn fwy llwyddiannus, e.e. sefydlu cyfrif e-bost a'i ddefnyddio, ymarfer chwilio, eu helpu i gofrestru ar gyfer Paru Swyddi Ar-lein a dangos iddynt sut i'w ddefnyddio, eu dangos sut i gopïo a phastio fel y gallant ddefnyddio'r un testun ar gyfer ceisiadau swyddi gwahanol | **Dd/G** |

**Arfer Da a Gwersi a Ddysgwyd - Cynhwysiant Digidol**

| Lleoliad / Rhaglen | Arfer da a nodwyd | Gwersi a Ddysgwyd / Canlyniadau a Gyflawnwyd | Ffynhonnell a Gyhoeddwyd |
|---|---|---|---|
| **Cyngor Bwrdeistref Metropolitana-idd Tameside** | • Wedi gweithio gyda DWP i sefydlu Hwb hunanwasanaeth ym mhrif swyddfeydd y cyngor, gan roi cyfrifiaduron am ddim ar gyfer cael mynediad at Gredyd Cynhwysol ar-lein, Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor a budd-daliadau eraill DWP<br>• Mae'r Hwb yn cefnogi mynediad at gyfrifiaduron mewn llyfrgelloedd a Chanolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid ar draws y fwrdeistref<br>• Mae staff yn cydweithio â'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth, sydd hefyd wedi'i lleoli ym mhrif swyddfeydd y cyngor, ac maent ar gael i roi cymorth ar-lein i weld ceisiadau a'r brif neges yw mynd ar-lein ac aros ar-lein | • Wedi penodi tri unigolyn di-waith i roi cymorth ar gyfer gweithgarwch ar-lein yn ystod cyfnod yr ardaloedd arbrofol ac wedi comisiynu'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth i roi Cymorth Cyllidebu Personol ar ein rhan<br>• Mae'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth dan gontract i helpu hawlwyr i gwblhau ffurflenni ar-lein, i gofrestru gyda Pharu Swyddi Ar-lein ac i gwblhau ceisiadau ar gyfer Cymorth Treth Gyngor | 1 |
| **Cyngor Dinas Rhydychen / Cyngor Bwrdeistref Rushcliffe** | • Awgrymodd tystiolaeth o Grŵp Ffocws Tenantiaid Prosiect Arddangos Taliadau Uniongyrchol (Cyngor Dinas Rhydychen) fod tenantiaid yn poeni am y risgiau diogelwch sy'n gysylltiedig â defnyddio cyfrifiaduron cyhoeddus mewn llyfrgelloedd neu swyddfeydd cyngor | • Gellir dysgu gwersi o Brosiect Peilot dan arweiniad ALl **Cyngor Bwrdeistref Rushcliffe** lle caiff diogelwch data ar derfynellau hunanwasanaeth ei gysylltu â system gyfrifiadurol graidd - mae hyn yn golygu na all cwsmeriaid bori nac agor negeseuon e-bost personol yn agored, ond mae angen iddynt allu defnyddio negeseuon e-bost er mwyn defnyddio'r cyfleuster Paru Swyddi Ar-lein i ddod o hyd i swyddi<br>• Mae prosiectau peilot eraill wedi mynd i'r afael â hyn drwy gynnig mynediad agored<br>• Mae Cyngor Bwrdeistref Rushcliffe bellach wedi galluogi cwsmeriaid i ddefnyddio eu cyfrif e-bost drwy'r terfynellau hunanwasanaeth. Fodd bynnag, mae hyn wedi cynnwys rhoi mesurau diogelwch ychwanegol ar waith na fyddai wedi bod eu hangen pe byddai'r terfynellau yn cynnig mynediad agored fel safleoedd eraill. | 1 |
| <br><br><br><br><br><br><br>**Cyngor Dumfries a Galloway** | <u>Sefydlu mynediad i'r rhyngrwyd.</u><br>Gwnaed gwaith arolygu gan ALlau i geisio deall pa gyfran o'u cwsmeriaid sy'n gallu gwneud ceisiadau ar-lein, a/neu sydd â mynediad i'r rhyngrwyd. Gwnaethant ganfod bod grwpiau mawr o ddefnyddwyr gwasanaeth sydd â mynediad cyfyngedig i'r rhyngrwyd gartref. **Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, mae'r ALlau wedi cymryd y camau canlynol:**<br><br>• **Cyngor Dumfries a Galloway:** Mae'r awdurdod wedi gosod pwyntiau mynediad i'r rhyngrwyd mewn ardaloedd derbynfa cwsmeriaid ar safleoedd y cyngor, ac hefyd mae'n hyfforddi staff i roi cymorth i gwsmeriaid wneud ceisiadau ar-lein | | 2 |

| Arfer Da a Gwersi a Ddysgwyd - Cynhwysiant Digidol | | | |
|---|---|---|---|
| **Lleoliad / Rhaglen** | **Arfer da a nodwyd** | **Gwersi a Ddysgwyd / Canlyniadau a Gyflawnwyd** | **Ffynhonnell a Gyhoeddwyd** |
| **Cyngor Bwrdeistref Rushcliffe** | • **Cyngor Bwrdeistref Rushcliffe:** Wedi rhoi nifer o derfynellau rhyngrwyd yn eu canolfannau cyswllt cwsmeriaid ger y drysau ffrynt er mwyn sicrhau y gellir mynd atynt a'u gweld yn hawdd<br>• Caiff staff derbynfeydd yn y canolfannau cyswllt eu hyfforddi er mwyn sicrhau y gallant asesu anghenion pob cwsmer yn hawdd a'i gyfeirio at y pwyntiau hunanwasanaeth | • Yn ôl **Cyngor Bwrdeistref Rushcliffe**, mae darparu terfynellau rhyngrwyd hunanwasanaeth wrth y pwynt cyswllt cyntaf yn bwysig er mwyn gwella'r defnydd a wneir gan gwsmeriaid o wasanaethau ar-lein<br>• Mae'r defnydd a wneir o derfynellau hunanwasanaeth gan gwsmeriaid budd-daliadau wedi cynyddu i 11% o'r 600 o gwsmeriaid budd-daliadau wyneb yn wyneb sy'n ymweld bob mis. Mae 81% o'r holl geisiadau newydd am fudd-dal tai wedi'u cwblhau ar-lein naill ai o gartref neu'r derfynell hunanwasanaeth | |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili** | • **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**: Wedi mapio pwyntiau mynediad i'r rhyngrwyd ac argaeledd ar draws y fwrdeistref, ac wedi rhoi cyhoeddusrwydd i'r wybodaeth drwy lunio taflenni manwl a byrddau gwybodaeth a thrwy ddefnyddio ymgyrch farchnata<br>• Gosod pwyntiau mynediad diwifr mewn neuaddau pentref a chanolfannau cymunedol eraill er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg gwasanaeth band eang mewn rhai ardaloedd gwledig.<br>• Sefydlwyd hyrwyddwyr digidol cymunedol, sydd wedi cael eu briffio ar Gredyd Cynhwysol a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â Budd-dal Tai mewn tri phentref ar wahân er mwyn helpu cyd-drigolion i ddefnyddio gwasanaethau rhyngrwyd | • Mae'r ymgyrch farchnata gan **Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili** bellach yn egluro bod 16 o lyfrgelloedd lleol yn cynnig mynediad i'r rhyngrwyd, gwasanaethau 'Gwneud Cais Ar-lein' a chymorth hyfforddiant sgiliau digidol un-i-un | |
| **Cyngor Dosbarth Gorllewin Lindsay** | • **Cyngor Dosbarth Gorllewin Lindsay**: Gosod pwyntiau mynediad diwifr mewn neuaddau pentref a chanolfannau cymunedol eraill er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg gwasanaeth band eang mewn rhai ardaloedd gwledig | • Yn sgil y cynnydd mewn gwasanaeth band eang mewn ardaloedd gwledig yng **Nghyngor Dosbarth Gorllewin Lindsey,** sefydlwyd hyrwyddwyr digidol cymunedol, sydd wedi cael eu briffio ar Gredyd Cynhwysol a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â Budd-dal Tai mewn tri phentref ar wahân er mwyn helpu cyd-drigolion i ddefnyddio gwasanaethau rhyngrwyd | |
| | Gwella sgiliau TG:<br>Dangosodd gwaith arolygu a wnaed gan yr ALlau hefyd nad oedd gan nifer o'u cwsmeriaid sgiliau TG digonol os o gwbl. **Er mwyn mynd i'r afael â'r camau hyn, mae'r ALlau canlynol wedi cymryd y camau canlynol:** | | **2** |

## Arfer Da a Gwersi a Ddysgwyd - Cynhwysiant Digidol

| Lleoliad / Rhaglen | Arfer da a nodwyd | Gwersi a Ddysgwyd / Canlyniadau a Gyflawnwyd | Ffynhonnell a Gyhoeddwyd |
|---|---|---|---|
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili** | • **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili:** Cynnig "Dydd Gwener Digidol", sesiynau agored er mwyn helpu pobl gyda'u sgiliau TG - gyda chymorth staff a gwirfoddolwyr o'r Ganolfan Byd Gwaith yn ogystal â phobl sydd am gael profiad o wirfoddoli er mwyn eu helpu i chwilio am waith | • Fel rhan o'r broses hyfforddi, caiff trigolion gymorth i fynd ati i wneud e-gais a Newid Amgylchiadau Ar-lein neu ddefnyddio rhyngweithrediadau addas eraill fel cofrestru gyda'r cyfleuster Paru Swyddi Ar-lein a gwneud cais am wasanaethau'r cyngor ar-lein. Hyd yma (haf 2013), mae **Cyngor Sir Caerffili** yn amcangyfrif bod 2,500 o drigolion wedi cael cymorth i fynd ar-lein | |
| **Cyngor Caerfaddon a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf** | • **Cyngor Caerfaddon a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf:** Mae'n ystyried cynnig cyfle i gwsmeriaid sydd â sgiliau TG da i ddod i weithdai yn y dyfodol er mwyn helpu i roi cymorth cymheiriaid i eraill. Yn gyfnewid am hynny, mae'n cynnig tystysgrif y gellir ei ddefnyddio ar CV ar gyfer cyfleoedd swyddi yn y dyfodol | | |
| **Cyngor Dosbarth Gogledd Dorset** | • Nododd **Cyngor Dosbarth Gogledd Dorset** fod angen hyfforddiant TG ar nifer o bobl a oedd yn mynychu clybiau gwaith yn y dosbarth. O ganlyniad, mae cwrs hyfforddi wedi'i drefnu mewn partneriaeth â Gwasanaethau Dysgu i Oedolion a chaiff hawlwyr eu cyfeirio at y ddarpariaeth hon | • Hyd yma (haf 2013), mae 67 o bobl wedi mynychu'r cyrsiau sylfaenol a sefydlwyd gan **Gyngor Gogledd Dorset** mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Dysgu i Oedolion, gan gynnwys cyflwyniad i gyfrifiaduron, e-bost, prosesu geiriau a mynediad i'r rhyngrwyd. Hefyd, mae 20 o bobl eraill wedi cofrestru ar y rhaglen Sgiliau Ymarferol TG | |
| **Cyngor Dosbarth Gorllewin Lindsay** | • Mae **Cyngor Dosbarth Gorllewin Lindsey** wedi gosod cyfrifiaduron personol â'r rhyngrwyd arnynt yn ei swyddfeydd yn Neuadd y Dref ac, mewn partneriaeth â staff y Ganolfan Byd Gwaith, caiff cymorth ei gynnig i gwsmeriaid sydd am ddefnyddio amrywiaeth o wasanaethau ar-lein, gan gynnwys ffurflenni cais a Paru Swyddi Ar-lein | • Mae **Cyngor Dosbarth Gorllewin Lindsey** yn monitro'r gwasanaeth cymorth a chanfu fod pobl yn tyfu mewn hyder wrth iddynt barhau i ddefnyddio'r gwasanaeth; mae llawer o'r rheini yr oedd angen cymorth arnynt i ddechrau bellach yn gallu defnyddio'r gwasanaeth heb gymorth (ym mis Mawrth a mis Ebrill 2013, gofynnodd 81 y cant o gwsmeriaid newydd am ryw fath o gymorth, ond dim ond 44% o gwsmeriaid a oedd yn gwneud ail gais a oedd angen cymorth[16]) | **2** |
| | Annog y defnydd o wasanaethau ar-lein: Mae ALlau wedi nodi bod rhai grwpiau o gwsmeriaid yn amharod i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein, er gwaethaf ymdrechion i annog mwy o bobl i wneud hynny. **Er mwyn mynd i'r afael â'r amharodrwydd hwn, mae'r ALlau wedi cymryd y camau canlynol:** | | |

16. Sail arolwg 318.

## Arfer Da a Gwersi a Ddysgwyd - Cynhwysiant Digidol

| Lleoliad / Rhaglen | Arfer da a nodwyd | Gwersi a Ddysgwyd / Canlyniadau a Gyflawnwyd | Ffynhonnell a Gyhoeddwyd |
|---|---|---|---|
| **Cyngor Dinas Birmingham** | • **Cyngor Dinas Birmingham:** Wedi cyflwyno llyfr cofnod digidol er mwyn helpu tenantiaid tai cymdeithasol i reoli taliadau. Rhaid i denantiaid gofrestru ar gyfer y llyfr cofnod digidol fel amod o'u tenantiaeth | • Erbyn haf 2013, canfu Cyngor Dinas Birmingham fod 1,063 o denantiaid wedi cofrestru ar gyfer y llyfr cofnod digidol a bod yr adborth cynnar yn gadarnhaol yn gyffredinol | 1 |
| **Cyngor Dinas Casnewydd** | • **Cyngor Dinas Casnewydd:** wedi cynnwys logo ac URL 'Arbed amser, ewch ar-lein' a ychwanegir at bob ffurflen bapur er mwyn annog pobl i ddefnyddio'r fersiynau ar-lein | • Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi gweld cynnydd yn nifer y ceisiadau ar-lein oherwydd yr ymgyrch 'Arbed amser, ewch ar-lein', er enghraifft, mae'n amcangyfrif bod nifer y ceisiadau ar-lein am y Bathodyn parcio Glas i bobl anabl wedi cynyddu o 15% i 30% dros y tri mis ers ei lansio | 2 |
| **Cyngor Bwrdeistref Rushcliffe** | • **Cyngor Bwrdeistref Rushcliffe**: Wedi gosod dwy derfynell yng Nghanolfan Cyswllt Cymunedol Rushcliffe, gydag arwyddion clir i annog pobl i ddefnyddio a datblygu gwefan benodol sy'n hawdd ei defnyddio www.rushcliffe.gov.uk/selfserve gyda mynediad at amrywiaeth o wefannau partner, yn cynnwys safleoedd chwilio am swyddi<br>• Wedi cynnig gwasanaeth ffonio'n ôl i gwsmeriaid allu cwblhau cyfrifiad cychwynnol ar-lein dros y ffôn ac apwyntiad dilynol yn lle anfon ffurflenni papur (ffurflenni papur wedi'u dileu o'r wefan)<br>• Cymorth i ddefnyddio'r ciosgau sydd ar gael i gwsmeriaid y mae help arnynt neu nad oes ganddynt lawer o hyder<br>• Nodi rhesymau pam nad yw cwsmeriaid yn gwneud cais ar-lein a chynnig cymorth i'r unigolion hynny<br>• Hefyd hyrwyddo gwasanaethau ar-lein drwy eu hymgyrch 'don't stand in line, do it online'. | | |
| **Cyngor Dumfries a Galloway** | • **Cyngor Dumfries a Galloway**: Mae hefyd yn cynnal dadansoddiad pellach i ddeall pa rwystrau penodol y mae cwsmeriaid yn eu hwynebu wrth ddefnyddio gwasanaethau ar-lein drwy gynnal arolwg o gwsmeriaid sydd wedi gwneud ceisiadau papur - mae'r cyngor yn gobeithio y bydd yr ymchwil hon yn rhoi cipolwg ar y rhwystrau sy'n bodoli a'r newidiadau mewn polisi y gellir eu gwneud er mwyn annog mwy o bobl i fynd ar-lein | | |

**Arfer Da a Gwersi a Ddysgwyd - Cynhwysiant Digidol**

| Lleoliad / Rhaglen | Arfer da a nodwyd | Gwersi a Ddysgwyd / Canlyniadau a Gyflawnwyd | Ffynhonnell a Gyhoeddwyd |
|---|---|---|---|
| **Prosiectau Digital Deal ledled y DU**[17] | Mae prosiectau Digital Deal yn profi amrywiaeth o ffyrdd o helpu tenantiaid tai cymdeithasol i fynd ar-lein yn cynnwys:<br>• Gosod cyfleuster di-wifr am ddim mewn blociau tenantiaid<br>• Bysiau Symudol gyda chyfleuster di-wifr a chymorth mewn ardaloedd gwledig<br>• Cyfrifiaduron fforddiadwy wedi'u hailwampio gyda benthyciadau cyfarpar drwy rai undebau credyd<br>• Cymorth un-i-un yn y cartref<br>• Sianel deledu ddigidol | Mae'r Prosiect Digital Deal yn rhedeg hyd at fis Mai 2014, a chaiff ei werthuso ar y nodweddion canlynol:<br>• **Gwerth am arian** e.e. bydd y gwaith arfaethedig yn effeithio ar gyfran helaeth o'r trigolion dan sylw;<br>• **Cymhelliad, Sgiliau a Gallu** e.e. Bydd cyfran helaeth o'r trigolion dan sylw yn meithrin eu sgiliau a'u gallu digidol ar gyfer defnyddio gwasanaethau ar-lein<br>• **Effaith** e.e. caiff amrywiaeth o ganlyniadau cymdeithasol cadarnhaol eu cyflawni drwy'r gwaith datblygu digidol arfaethedig fel cynnydd nodedig yn nifer y bobl sy'n derbyn y gall technoleg ac ymgysylltiad digidol wella ansawdd bywyd yn sylweddol<br>• **Ymarferoldeb** e.e. cyflenwi ei nod o fewn y gyllideb a'r amserlen;<br>• **Cynaliadwyedd** e.e. gall prosiect barhau y tu hwnt i oes y cyllid | |
| **Cynlluniau Peilot y Ganolfan Byd Gwaith**[18] | Gweithredwyd Cynlluniau Peilot mewn 3 ardal ar wahân ar 25 Mai 2012 a gwnaethant redeg am 12 wythnos:<br>• **Cynllun Peilot Un** – Profi'r effaith o staff yn ail-gyfeirio a pherswadio galwyr i wneud cais ar-lein, gan roi cymorth lle y bo angen<br>• **Cynllun Peilot Dau** – Profi'r effaith o aros 5 (ac yn ddiweddarach 10) munud ychwanegol ar y llinell gwneud cais dros y ffôn<br>• **Cynllun Peilot Tri** – Profi'r effaith o roi cymhelliant ar gyfer ceisiadau ar-lein drwy addo rhoi blaenoriaeth i brosesu ceisiadau ar-lein | • Roedd perswadio galwyr i wneud cais ar-lein a rhoi gwybod iddynt lle gallant gael mynediad at y rhyngrwyd yn fwy llwyddiannus na chynyddu amseroedd aros neu addo i roi blaenoriaeth i brosesu cais ar-lein<br>• Mae'r effeithiau yn debygol o fod yn barhaol - bydd o leiaf rai hawlwyr yn gwneud cais ar-lein eto y tro nesaf<br>• Roedd y cyfle i wneud cais ar-lein yn cael ei ystyried yn gadarnhaol ar y cyfan er bod staff a hawlwyr yn teimlo y dylid cael dewis o ran sut i wneud cais<br>• Yn gyffredinol, cafodd hawlwyr profiad da o ddefnyddio Lwfans Ceisio Gwaith ar-lein, ac yn gwerthfawrogi ei hyblygrwydd a'i hwylustod. Dywedodd rhai a chafodd broblemau a wnaeth eu hatal rhag gwneud cais ar-lein y byddent yn ceisio eto yn y dyfodol<br>• Byddai rhai hawlwyr yn barod i wneud cais ar-lein y tro nesaf gyda chymorth. Mae cyflwyno Dyfeisiau Mynediad i'r Rhyngrwyd mewn Canolfannau Byd Gwaith wedi rhoi mynediad i hawlwyr i'r Rhyngrwyd a, lle y bo'n briodol, cymorth gan staff | |

17. De-ddwyrain Lloegr (Ealing; Westminster; Salisbury; Staines); Bron Afon (Cwmbrn); Cyngor Camden; Cottsway (Rhydychen); Fabrick (Middlesbrough); Golden Gate (Warrington); Cymdeithas Tai Ffederaeleiddio Leeds; Magenta Living (Wirral); Progress Housing (Leyland, Lytham South Ribble); Queens Cross (Glasgow); South Essex Homes (Southend); Yarlington Housing (Somerset).
18. De-ddwyrain Cymru, Birmingham a Solihull, a Glannau Merswy.

## Arfer Da a Gwersi a Ddysgwyd - Cynhwysiant Digidol

| Lleoliad / Rhaglen | Arfer da a nodwyd | Gwersi a Ddysgwyd / Canlyniadau a Gyflawnwyd | Ffynhonnell a Gyhoeddwyd |
|---|---|---|---|
| **Cynlluniau Peilot y Ganolfan Byd Gwaith**[19] | Lansiwyd Cynllun Peilot Pedwar, Pump a Chwech o fis Awst 2012 a Cynllun Peilot Saith ac Wyth ym mis Chwefror 2013:<br>• **Cynllun Peilot Pedwar** - yn canolbwyntio ar annog hawlwyr Ail-hawlio Cyflym i wneud cais ar-lein<br>• **Cynllun Peilot Pump** - dileu'r opsiwn o wneud cais dros y ffôn ar y cyswllt cyntaf trwy ddarparu apwyntiad galw yn ôl tri diwrnod ar ôl y cyswllt cychwynnol<br>• **Cynllun Peilot Chwech** - dileu'r opsiwn o wneud cais dros y ffôn i unrhyw hawlydd sy'n gymwys ac yn gallu defnyddio'r gwasanaeth JSA Ar-lein. Cyfeiriwyd hawlwyr at bwynt mynediad addas gyda darparwr trydydd parti neu Ddyfais Mynediad i'r Rhyngrwyd y Ganolfan Byd Gwaith<br>• **Cynllun Peilot Saith** – profi'r cyfuniad o Cynllun Peilot Pump a Chwech<br>• **Cynllun Peilot Wyth** - amrywiad ar Cynllun Peilot Chwech lle y digwyddodd y penderfyniad ar gymhwyster hawlydd i wneud cais ar-lein yn ystod y ddeialog gydag asiantau ganolfan gyswllt, yn hytrach nag yn ystod rhan Ymateb Llais Rhyngweithiol Ymateb yr alwad | • Mae Cynllun Peilot Chwech ac Wyth wedi dangos ei bod yn bosibl i gyfeirio hawlwyr i'r gwasanaeth ar-lein, cyn belled â bod hyn yn cael ei gyfuno â chymorth ar gyfer y rhai heb fynediad i'r rhyngrwyd a/neu'r sgiliau i'w ddefnyddio<br>• Cyfeirio hawlwyr a oedd yn gymwys ac yn gallu defnyddio'r gwasanaeth JSA Ar-lein, ac roedd rhoi cymorth i'r rhai sydd â mynediad cyfyngedig i'r rhyngrwyd a/neu sgiliau TG gwael yn golygu y cafodd y cynnydd mewn gwneud cais ar-lein ei gyflawni heb gynnydd sylweddol yn y nifer o gwynion gan hawlwyr<br>• Nododd staff y ganolfan gyswllt fod y newidiadau angen symud y pwyslais i ffwrdd o sgyrsiau sgriptio tuag at fwy o ddefnydd o sgiliau dylanwadu a darbwyllo<br>• Mae'n bwysig sicrhau bod gwasanaethau ar y we mor ddefnyddiol ag y bo modd. Nid yn unig oherwydd mae hyn yn gwella gwasanaeth ar gyfer yr hawlydd, ond oherwydd bod cwestiynau aneglur yn arwain at wybodaeth goll sydd angen cyswllt ychwanegol â'r hawlwyr yn ystod y cyfnod prosesu, sy'n cynyddu costau | |

## Arfer Da a Gwersi a Ddysgwyd - Cynhwysiant Ariannol a Chymorth Cyllidebu Personol

| Lleoliad / Rhaglen | Arfer da a nodwyd | Gwersi a Ddysgwyd / Canlyniadau a Gyflawnwyd | Ffynhonnell a Gyhoeddwyd |
|---|---|---|---|
| **Cyngor Dosbarth Gorllewin Lindsay** | • Mae undeb credyd yn gweithredu o Neuadd y Dref yn Gainsborough ar ddydd Mawrth i gynnig cynnyrch a chyngor ariannol<br>• O fis Gorffennaf 2013, cynhaliwyd 20 o sesiynau cynhwysiant ariannol llywodraeth leol a Chredyd Cynhwysol - 'Money Box' mewn partneriaeth â chymdeithas dai leol, Undeb Credyd, Canolfan Cyngor ar Bopeth, cyfreithwyr lleol a chymorth tai symudol. Ni ddangoswyd llawer o ddiddordeb i ddechrau ond mae hyn wedi tyfu ac mae'n ddefnyddiol i gwsmeriaid allu gweld mwy nag un maes o gymorth mewn un ymweliad<br>• Bydd cwsmeriaid yn gallu siarad yn hyderus am amrywiaeth o faterion yn ymwneud â rheoli eu cyllideb | • Mae sefydliad allanol sy'n cadeirio'r grŵp llywio yn anfon neges bwerus i bartneriaid am eu rolau pwysig mewn Credyd Cynhwysol<br>• Mae cwsmeriaid am gael cymorth wyneb yn wyneb i'w helpu i fynd ar-lein a gall hyrwyddwyr digidol cymunedol gyfrannu at hyn<br>• Gweithio gyda'r cyngor sir i nodi gwasanaethau sirol - fel llyfrgelloedd cyhoeddus a chanolfannau plant - lle gall cwsmeriaid gael mynediad i'r rhyngrwyd | **1** |

19. Gloucester a Gorllewin Lloegr, Bedfordshire a Hertfordshire, De-ddwyrain Cymru, Birmingham a Solihull, a Glannau Merswy.

## Arfer Da a Gwersi a Ddysgwyd - Cynhwysiant Ariannol a Chymorth Cyllidebu Personol

| Lleoliad / Rhaglen | Arfer da a nodwyd | Gwersi a Ddysgwyd / Canlyniadau a Gyflawnwyd | Ffynhonnell a Gyhoeddwyd |
|---|---|---|---|
| **Cyngor Milton Keynes** | • Canfu nifer o ALlau fod cwsmeriaid yn amharod i gymryd rhan mewn sesiynau grŵp hyfforddiant cyllidebu ac ariannol, o bosibl oherwydd stigma sy'n gysylltiedig â datgelu problemau gyda dyledion personol ac ôl-ddyledion rhent. Cafodd rhai sesiynau eu canslo oherwydd diffyg diddordeb. Adlewyrchwyd y canfyddiad hwn mewn ardaloedd peilot Prosiectau Arddangos Taliadau Uniongyrchol hefyd<br>• Rhedeg sesiynau rheoli ariannol gyda phartneriaid lleol uchel eu parch yr ymddiriedir ynddynt, yn yr achos hwn, mewn partneriaeth â chlwb Pêl-droed Lleol<br>• Roedd y sesiynau'n boblogaidd ymhlith trigolion lleol ac, yn ôl y cyngor, gellir priodoli rhan o'r llwyddiant hwnnw i gyfranogiad y tîm lleol | • Yn gyffredinol, mae hawlwyr yn bryderus am eu gallu i reoli taliadau uniongyrchol misol. Mae rhai o'r prosiectau peilot wedi datblygu dulliau ar-lein er mwyn helpu hawlwyr i wella eu sgiliau cyllidebu<br>• Gall cymorth cyllidebu un-i-un fod yn fwy effeithiol na sesiynau grŵp<br>• Yn ôl Cyngor Milton Keynes, mae cyswllt cryf rhwng y trigolion a'r tîm ac, felly, mae digwyddiadau a gefnogir gan y clwb yn elwa o gyswllt cadarnhaol cryf<br>• Mae'n bosibl bod pobl yn teimlo y gallant fynd i'r afael â phynciau anodd neu boenus mewn amgylchedd y maent yn ei gysylltu â rhywbeth cyfarwydd a chyfforddus | **1**<br><br><br><br><br><br><br><br><br>**2** |
| **Prosiectau Arddangos Taliadau Uniongyrchol** | • Mae landlordiaid yn cydnabod y bydd angen ffyrdd newydd o weithio er mwyn ymateb yn effeithiol i'r amgylchedd newydd ac y bydd y rhain yn herio eu rôl draddodiadol. Mae'r adroddiad yn argymell y bydd ymyriad cynnar gan landlord a mwy o bwyslais ar y gydberthynas rhwng y landlord a'r tenant yn allweddol yn y dyfodol<br>• Mae'r Prosiect yn llunio 'Arfer Da i Landlordiaid' sy'n seiliedig ar brofiad o Daliadau Uniongyrchol ac mae'n datblygu synnwyr gwell o'r costau dan sylw wrth ehangu hyn ar gyfer Credyd Cynhwysol<br>• Mae hyn hefyd yn cynnwys nodi'r materion y dylai landlordiaid eu hystyried wrth baratoi eu hunain ar gyfer y broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol | • O'r 10,000 o denantiaid a aseswyd wrth baratoi ar gyfer taliadau uniongyrchol, roedd dros 6,000 yn cael eu talu drwy daliadau uniongyrchol<br>• Mae canfyddiadau o'r gwerthusiad chwe mis yn dangos bod 94% o'r holl denantiaid a gyflwynwyd ar daliadau uniongyrchol yn talu eu rhent llawn neu rywfaint o'u rhent ond bod yn rhaid i 20% o'r rheini gael eu newid yn ôl i wneud taliadau i'w landlordiaid<br>• Mae'r mwyafrif o'r tenantiaid a drosglwyddwyd i daliadau uniongyrchol yn llwyddo i dalu rhywfaint o'u rhent neu eu holl rent er gwaethaf eu pryderon ynghylch eu gallu i ymdopi<br>• Ceir tystiolaeth o sgiliau rheoli arian da a lefelau uchel o allu ariannol ymysg tenantiaid<br>• Mae cymryd rhan yn y Prosiectau, sy'n cynnwys rhoi cymorth i denantiaid, wedi bod yn heriol i landlordiaid - ond maent yn cydnabod yr angen i newid y ffordd maent yn gweithredu<br>• Cyfrifon banc - mae gan fwy o denantiaid na'r disgwyl gyfrifon (80%) er nad yw'r rhain yn gyfrifon gweithredol bob amser<br>• O'r Arolwg Sylfaenol, o'r holl denantiaid sy'n cael Budd-dal Tai rhannol, roedd 35% yn talu mewn arian parod, roedd 27% yn talu drwy ddefnyddio cerdyn taliadau rhent a dim ond un rhan o bump oedd yn defnyddio systemau awtomataidd debyd uniongyrchol ac archebion sefydlog | **3** |

## Arfer Da a Gwersi a Ddysgwyd - Cynhwysiant Ariannol a Chymorth Cyllidebu Personol

| Lleoliad / Rhaglen | Arfer da a nodwyd | Gwersi a Ddysgwyd / Canlyniadau a Gyflawnwyd | Ffynhonnell a Gyhoeddwyd |
|---|---|---|---|
| | | • Er roedd yn well gan y rhan fwyaf o'r landlordiaid ar y prosiect daliadau uniongyrchol fel dull o dalu. Mae'n bwysig cynnig amrywiaeth o ddulliau talu sydd wedi'u teilwra at anghenion y tenantiaid<br>• Nid yw pob hawlydd wedi derbyn y cymorth a gynigiwyd nac wedi cymryd rhan<br>• Mae angen i rai hawlwyr gael cymorth parhaus - yn aml, mae'n anodd nodi problemau sylfaenol ar unwaith<br>• Mae tenantiaid am deimlo eu bod mewn rheolaeth o'u hincwm - ni cheir un ateb unigol | |
| **Prosiectau Arddangos Taliadau Uniongyrchol** | • Roedd y rhan fwyaf o Ardaloedd Prosiect yn dibynnu ar lythyrau i ymgysylltu â thenantiaid i ddechrau er bod pob un wedi defnyddio ffurfiau amrywiol ar gyfathrebu personol yn y pen draw | • Mae cyfathrebu'n gynnar â hawlwyr yn hanfodol<br>• Mae'n well gan denantiaid gael cysylltiad personol (wyneb yn wyneb neu dros y ffôn) gyda'u landlordiaid<br>• Nododd tystiolaeth o un ardal lwyddiant gwell pan roedd y cymorth wedi'i gyflwyno fel 'cymorth tenantiaeth' na phan oedd wedi'i gyflwyno fel cyngor ariannol<br>• Defnyddio'r amrywiaeth ehangaf o sianeli cyswllt sy'n cyflawni'r canlyniadau mwyaf effeithiol<br>• Mae angen i denantiaid ddeall eu cyfrifoldeb o'r dechrau a phan fydd eu hamgylchiadau personol yn newid | **3** |
| **Llywodraeth yr Alban** | Ymysg yr arfer da a nodwyd gan Lywodraeth yr Alban mae:<br>• Ymyrryd yn gynnar cyn i broblemau pobl fynd yn rhy bell; rhoi cyngor cyllidebu sydd wedi'i dargedu ac sy'n berthnasol i unigolion<br>• Rhoi cymorth cyllidebu sy'n gyfleus ac yn lleol; sicrhau y caiff staff rheng flaen eu hyfforddi i ddiwallu anghenion grwpiau sy'n agored i niwed<br>• Dulliau y gall hawlwyr budd-daliadau eu mabwysiadu i'w helpu i ddatblygu eu gallu ariannol eu hunain | • Canfu ymchwil gan Lywodraeth yr Alban fod yr arfer da a nodwyd yn bwysig er mwyn sicrhau cymorth effeithiol a defnyddiol ar gyllidebu i hawlwyr | **6** |
| **Cyngor Southwark** | • Oherwydd cynnydd mewn ôl-ddyledion rhent a'r defnydd o fenthycwyr diwrnod cyflog, gwnaeth y bartneriaeth gynnig llwyddiannus am arian gan y Loteri Fawr i sefydlu "Money Savvy Southwark" - prosiect dros bum mlynedd yw hwn i wella cynhwysiant ariannol ymysg tenantiaid tai cymdeithasol. O hydref 2013 byddant yn cynnig gweithdai sgiliau cyllidebu grŵp i holl Denantiaid newydd Cyngor Southwark | | **7** |

## Arfer Da a Gwersi a Ddysgwyd - Cynhwysiant Ariannol a Chymorth Cyllidebu Personol

| Lleoliad / Rhaglen | Arfer da a nodwyd | Gwersi a Ddysgwyd / Canlyniadau a Gyflawnwyd | Ffynhonnell a Gyhoeddwyd |
|---|---|---|---|
| | • Mae chwe asiantaeth wedi'u his-gontractio i ddarparu gwasanaethau. Roedd hyn yn haws gan fod y 6 yn rhan o'r bartneriaeth eisoes | | |
| **Canolfannau Cyngor ar Bopeth** | • Rhedeg rhaglen Sgiliau Ariannol am Oes (a gefnogir gan Prudential) ers 2002 i greu newid parhaol yn sgiliau pobl, a'u hyder wrth reoli arian<br>• Cynhaliodd Bedworth, Rugby a Nuneaton sesiynau hyfforddiant sgiliau ariannol byr am ddim i denantiaid Cymdeithas Dai leol | • Dangosodd gwerthusiad annibynnol fod y rheini a gymerodd ran mewn hyfforddiant sgiliau ariannol yn fwy tebygol o wella eu sgiliau ariannol, magu hyder ariannol a manteisio ar gynnyrch ariannol priodol<br>• Nododd 71% o ddysgwyr tenant bod eu hyder ariannol wedi cynyddu'n sylweddol yn sgil yr hyfforddiant, o gymharu â dim ond 13 y cant o'r grŵp cymharol<br>• Roedd dysgwyr tenant a newidiodd sut roeddent yn rheoli eu harian yn sgil yr hyfforddiant, ar gyfartaledd, £10 yr wythnos yn well eu byd<br>• Llwyddodd dysgwyr tenant a newidiodd eu hymddygiad cynilo i arbed £11 ychwanegol yr wythnos ar gyfartaledd | **Dd/G** |
| **Ardaloedd arbrofol** | • Mae cael rhagolwg o niferoedd disgwyliedig PBS yn galluogi bod y rhai sydd yn wirioneddol yn dechrau yn cael eu holrhain ac unrhyw gamau cywirol eu comisiynu<br>• Er enghraifft, gwnaeth hyn galluogi DWP i nodi dechreuwyr is na'r disgwyl manteisio ar PBS yn yr Ardaloedd Arbrofol<br>• Cynhaliwyd adolygiad o'r broses o'r dechrau i'w diwedd er mwyn canfod rhesymau dros hyn, gan ganolbwyntio ar y canlynol:<br>  • Y broses ei hun a chwestiynau hidlo ategol<br>  • Rolau swyddi a sut y caiff Cymorth Cyllidebu Personol ei ddarparu<br>  • Arweiniad a Rheoli Gwybodaeth<br>  • Deunydd Hyfforddiant a'r Ffordd o'i Ddarparu<br>  • Diwylliant ac Ymddygiadau | • Mae gweithgareddau gwella a nodwyd yn yr adolygiad yn cael ei ystyried<br>• Bydd gwerthusiad ffurfiol mewn ardaloedd arbrofol hefyd yn parhau i ymchwilio'n fanylach i'r materion wrth i'r niferoedd gynyddu drwy:<br>  • arolwg hawlwyr ar agweddau, ymddygiad, canlyniadau<br>  • gweithio gyda phartneriaid lleol i asesu eu profiad o gymorth a chyngor ar gyllidebu mewn ardaloedd arbrofi<br>  • ymchwil ansoddol arall sy'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar gymorth cyllidebu personol (gweler isod)<br>  • gellir cynnal ymchwil gyda staff i gaffael - ymysg pethau eraill - tystiolaeth ar: y materion ariannol y mae hawlwyr yn eu codi gyda staff; beth mae staff yn ei wneud i gynorthwyo hawlwyr; a'r cyngor y maent yn ei gynnig | **Dd/G** |
| **Prosiect Ehangu Undebau Credyd Cenedlaethol** | • Nododd y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol bod dyled yn un o'r pum llwybr allweddol at dlodi<br>• Yn dilyn astudiaeth ymarferoldeb i archwilio cwmpas a'r opsiynau ar gyfer moderneiddio ac ehangu undebau credyd, bydd DWP yn cynnal buddsoddiad pellach mewn undebau credyd, ar yr amod bod y diwydiant undebau credyd yn cyflawni nifer o gerrig milltir y cytunwyd arnynt, hyd at fis Ebrill 2015 | • Credyd yw cefnogi'r Strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol o leihau dyled drwy ehangu gwasanaethau undebau credyd i fwy o bobl sydd ar incwm isel<br>• Ei nod yw helpu undebau credyd sy'n cymryd rhan i fod yn gynaliadwy yn ariannol, a bydd yn gadael etifeddiaeth o gymorth systemau ariannol y gall undebau credyd eraill gael budd ohono yn y dyfodol | **Dd/G** |

## Arfer Da a Gwersi a Ddysgwyd - Cynhwysiant Ariannol a Chymorth Cyllidebu Personol

| Lleoliad / Rhaglen | Arfer da a nodwyd | Gwersi a Ddysgwyd / Canlyniadau a Gyflawnwyd | Ffynhonnell a Gyhoeddwyd |
|---|---|---|---|
| **Clwb Cyllidebu Treial Arloesedd Byw Hammersmith** | • Treialwyd rhwng mis Ionawr a mis Mai 2013 i archwilio'r ffordd orau o gynnig cymorth i reoli arian mewn partneriaeth â sefydliadau arbenigol y tu allan i DWP<br>• Ceisiodd y treial gael adborth ar y defnydd o gyfleuster cynllunio personol ar-lein fel rhan o'r broses gyfeirio at sesiynau rheoli arian<br>• Nodwyd Hammersmith fel y lleoliad mwyaf priodol gan fod ganddo gydberthynas â'r cyngor lle mae hawlwyr yn cael eu cyfeirio at sesiynau cymorth i reoli arian - 'Money Matters'<br>• Roedd y cyngor a'r Ganolfan Cyngor Ar Bopeth yn cymryd rhan gan gynnig eu fersiynau eu hunain o 'glybiau cyllidebu' | • Mae'n ymddangos bod hawlwyr yn cael trafferth gyda'r cysyniad o baratoi. Roedd llawer yn dweud y byddent wedi cael gwaith cyn i Gredyd Cynhwysol effeithio arnynt<br>• Er mwyn gwneud atgyfeiriadau o ansawdd mae angen i staff ddeall yn llwyr yr hyn y mae darparwyr yn ei gynnig<br>• Yn aml, roedd penderfyniadau ynghylch pa ddarparwr i'w ddewis yn cael eu gwneud ar sail p'un a oedd o fewn pellter cerdded<br>• Roedd y rheini a fynychodd o'r farn bod y sesiynau'n rhoi trosolwg cyffredinol da ond nid oeddent o anghenraid yn diwallu anghenion unigol. Roedd llawer yn hoffi'r sesiynau rhyngweithiol ac nid oedd yn ymddangos eu bod yn hoffi llawer o lenyddiaeth ddwys<br>• Roedd yn ymddangos bod gan bobl ifanc 18-24 oed anghenion gwahanol. Roedd rhai yn awyddus i gael sesiynau ar wahân<br>• Yn gyffredinol, ni ddychwelodd hawlwyr wythnos ar ôl wythnos, fodd bynnag, nododd y rhan fwyaf o'r hawlwyr a gyfwelwyd ar ôl mynychu eu bod wedi cymryd rhyw fath o gam cadarnhaol, er enghraifft, peidio â defnyddio benthyciwr diwrnod cyflog ar ôl clywed am y cyfraddau llog uchel | **Dd/G** |

## Arfer Da a Gwersi a Ddysgwyd - Creu a Chynnal Partneriaethau Gwaith

| Lleoliad / Rhaglen | Arfer da a nodwyd | Gwersi a Ddysgwyd / Canlyniadau a Gyflawnwyd | Ffynhonnell a Gyhoeddwyd |
|---|---|---|---|
| **Cyngor Bwrdeistref Melton** | • Wedi sefydlu 'Fforwm Darparu drwy Bartneriaeth' sy'n dwyn ynghyd bob partner allweddol mewn cyfarfod misol ac yn eu galluogi i ddatrys yn barhaus faterion sy'n benodol i unigolyn neu sydd o bwys ehangach i'r broses o ddarparu gwasanaethau ar draws eu hardal. Hefyd, mae nifer o bartneriaid Melton wedi'u cydleoli yn swyddfeydd y cyngor ac mae hynny'n eu galluogi i ddatrys materion eu cwsmeriaid yn gyflymach ac yn haws | • Mae'n cymryd amser i greu prosesau gweithio mewn partneriaeth - dechrau'n gynnar - sefydlu'r bartneriaeth drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau gwell ar gyfer carfan benodol o bobl, nid y themâu partneriaeth traddodiadol<br>• Mae un asesiad o anghenion ac un pwynt cyswllt ar gyfer cwsmeriaid yn arwain at ganlyniadau gwell<br>• Datblygu cysylltiadau cryf gyda'r Ganolfan Byd Gwaith, y cyngor sir a phartneriaid eraill<br>• Cysylltu â mentrau allweddol eraill fel teuluoedd cythryblus a chanolfannau plant | **1** |

**Arfer Da a Gwersi a Ddysgwyd - Creu a Chynnal Partneriaethau Gwaith**

| Lleoliad / Rhaglen | Arfer da a nodwyd | Gwersi a Ddysgwyd / Canlyniadau a Gyflawnwyd | Ffynhonnell a Gyhoeddwyd |
|---|---|---|---|
| **Cyngor Bwrdeistref Rushcliffe** | • Wedi cydnabod nad yw'r partneriaid yn y ganolfan cyswllt yn llawn amser ac felly bod angen sicrhau gwasanaeth parhaus pan na fydd y partneriaid yn bresennol<br>• Mae ymgynghorwyr gwasanaethau cwsmeriaid wedi bod yn cysgodi ymgynghorwyr y Ganolfan Byd Gwaith yn y Ganolfan Gwaith leol ac i'r gwrthwyneb er mwyn gwella sgiliau a gwybodaeth<br>• Roeddent hefyd yn canolbwyntio ar integreiddio amrywiaeth o wasanaethau partner i Ganolfannau Cyswllt Cymunedol. Mae nifer o bartneriaid, yn cynnwys y Ganolfan Byd Gwaith, yn gweithredu o'r Ganolfan yn rhan amser<br>• Cynhaliwyd digwyddiadau partneriaid ym mis Mehefin a mis Hydref 2013. Mae cyfeirlyfr cyfeirio drafft yn cael ei lunio a'i ddatblygu er mwyn nodi anghenion cwsmeriaid a phwy sydd yn y sefyllfa orau i'w helpu. Hefyd, dechrau sefydlu protocolau rhannu data a phrosesau ar gyfer atgyfeirio'n briodol<br>• Cynnig cyfweliadau amlasiantaeth (adrannau budd-daliadau a thai strategol Cyngor Bwrdeistref Rushcliffe, y Ganolfan Byd Gwaith, Central College, atgyfeiriadau at y Ganolfan Cyngor ar Bopeth pan fydd angen) i gwsmeriaid y rhoddwyd cap ar eu budd-daliadau | • Mae'n amlwg bod darparu mynediad i sawl partner yn y ffordd hon yn cynnig buddiannau pendant i gwsmeriaid ac mae tystiolaeth yn awgrymu bod darparu nifer o wasanaethau o dan un to yn arwain at lai o atgyfeiriadau, ffyrdd cyflymach o ddatrys problemau a mwy o foddhad ymhlith cwsmeriaid | **2** |
| **Cyngor Dosbarth Gogledd Dorset** | • Wedi mapio gweithgarwch partneriaeth ar draws ardal benodol er mwyn sicrhau llai o ddyblygu a phrosesau cyfeirio effeithiol | • Mwy o wirfoddolwyr i helpu wrth Bwyntiau Mynediad a chyfeirio at asiantaethau arbenigol<br>• Mae gweithio mewn partneriaeth yn golygu ein bod yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau prin | **2** |
| **Gogledd Strathclyde Llwybr Gofal drwy'r Broses Carchar Low Moss** | • Creu gwasanaeth cymorth cyfannol ar y cyd ar gyfer carcharorion sy'n paratoi i gael eu rhyddhau ac ar ôl iddynt gael eu rhyddhau<br>• Creu un llwybr o gymorth ar y cyd a ddarperir drwy Bartneriaeth Cymdeithasol Cyhoeddus o sefydliadau yn y sector cyhoeddus a gwirfoddol | • Nodwyd 9 o ganlyniadau troseddwyr fel y prif feysydd lle mae angen rhoi cymorth i gyn-droseddwyr:<br>i) Lles corfforol neu feddyliol parhaus neu well<br>ii) Camddefnyddio sylweddau wedi sefydlogi neu leihau<br>iii) Llai o gymryd risg<br>iv) Mwy o fyw hunangynhaliol<br>v) Mwy yn manteisio ar lety addas ac yn ei gynnal<br>vi) Troseddwyr yn cymhwyso sgiliau datrys problemau a rheoli dicter yn eu bywydau bob dydd<br>vii) Cynnal neu wella cydberthnasau gyda theuluoedd, cymheiriaid a'r gymuned<br>viii) Ennill cymwysterau a defnyddio/datblygu/ymarfer sgiliau newydd<br>ix) Cynnydd mewn cyflogaeth | **2**<br><br>**9** |

**Arfer Da a Gwersi a Ddysgwyd - Creu a Chynnal Partneriaethau Gwaith**

| Lleoliad / Rhaglen | Arfer da a nodwyd | Gwersi a Ddysgwyd / Canlyniadau a Gyflawnwyd | Ffynhonnell a Gyhoeddwyd |
|---|---|---|---|
| **Y Pwyllgor Ymgynghori ar Nawdd Cymdeithasol** | • Mae angen cymryd dull cyfannol o ddarparu gwasanaethau er mwyn osgoi dyblygu ymdrech. Fodd bynnag, yn ogystal â blaenoriaethau, dim ond os yw llifau arian cysylltiedig hefyd wedi'u halinio y gellir cyflawni hyn er mwyn sicrhau gwerth ychwanegol i hawlwyr a gwerth am arian gwell i'r trethdalwr<br>• Argymhellir, er mwyn paratoi ar gyfer Credyd Cynhwysol, y dylai darparu ddarparwyr gwasanaethau ystyried cynnal asesiad cychwynnol o'r effaith gronnol ar y gwasanaethau sydd eu hangen a'r adnoddau sydd eu hangen i gynnal y gwasanaethau hyn er mwyn nodi anghenion posibl yn y dyfodol ac unrhyw fylchau yn y gwasanaethau a ddarperir<br>• Mae'n bwysig bod partneriaid yn cytuno ar safonau gwasanaeth gofynnol er mwyn dileu amrywioldeb mewn darpariaeth leol a gwella cysondeb gwasanaethau er mwyn sicrhau mai dim ond cymorth o safon a gynigir i hawlwyr | | **10** |
| **Cyngor Dinas Caerefrog** | • Cydnabu Cyngor Caerefrog nad yw llyfrgelloedd yn llefydd ffasiynol iawn ond bod caffis yn llefydd y mae pobl am fynd iddynt<br>• Mae caffis mewn llefydd dymunol lle ceir cyfleuster di-wifr yn arbennig o ffasiynol felly maent wedi cydnabod hyn ac wedi ail-frandio ac ailddosbarthu gwasanaethau llyfrgell<br>• Mae Cyngor Caerefrog wedi agor "caffi darllen" mewn parc lleol<br>• Mae ganddo lawer o weithgareddau i blant, mae'n gaffi deniadol mewn lleoliad deniadol ond hefyd mae'n cynnig mynediad i'r rhyngrwyd a gwasanaethau llyfrgell llawn | | **Dd/G** |
| **Cyngor Dinas Caerefrog** | • Mae wedi targedu cyngor ariannol i'r teuluoedd sydd ei angen fwyaf ac wedi rhoi pwyslais ar allgymorth cymunedol er mwyn ymgysylltu â'r rheini sydd anoddaf eu cyrraedd<br>• Cydweithio'n agos gyda'r undeb credyd a'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth leol i gynnal amrywiaeth o fentrau. Wedi dechrau cydleoli undebau credyd a Chanolfannau Cyngor ar Bopeth gyda staff y cyngor ar yr un safleoedd | • Mae cynnig un lleoliad i breswylwyr yn cynnig mynediad i amrywiaeth o gymorth wedi'i deilwra | **Dd/G** |

**Arfer Da a Gwersi a Ddysgwyd - Creu a Chynnal Partneriaethau Gwaith**

| Lleoliad / Rhaglen | Arfer da a nodwyd | Gwersi a Ddysgwyd / Canlyniadau a Gyflawnwyd | Ffynhonnell a Gyhoeddwyd |
|---|---|---|---|
| **Cyngor Gorllewin Lothian** | • Mae Cyngor Gorllewin Lothian, mewn partneriaeth â'r Ganolfan Byd Gwaith a sefydliadau lleol eraill wedi datblygu "siop un stop" - West Lothian Connected - a leolir ym mhrif ganolfan siopa'r ardal<br>• Gwnaed trefniadau partneriaeth gyda'r prif landlordiaid cymdeithasol yn yr ardal, lle mae swyddogion Budd-dal Tai penodol yr Awdurdod Lleol, a leolir ar safleoedd landlordiaid, yn rhoi cymorth mawr i gwsmeriaid | • Mae "siopau un stop" yn cynnig gwasanaeth ar y cyd i gwsmeriaid gan sicrhau llai o ddyblygu, aneffeithlonrwydd a gorbenion biwrocrataidd | **Dd/G** |
| **Cyngor yr Alban ar gyfer Sefydliadau Gwirfoddol** | • Mae adroddiad mapio gan Gyngor yr Alban ar gyfer Sefydliadau Gwirfoddol yn awgrymu ei bod yn bwysig adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn gweithio er mwyn cynorthwyo'r llu o unigolion y bydd y newidiadau diwygio lles yn effeithio arnynt. Mae hyn yn cynnwys:<br>  • Dylid cynnal ymgyrch gwrth-stigma i chwalu'r mythau am hawlwyr budd-daliadau, yn debyg i'r ymgyrch iechyd meddwl llwyddiannus ledled yr Alban See Me[20].<br>  • Cydnabyddiaeth gan bartneriaeth statudol o werth buddsoddi mewn amrywiaeth eang o wasanaethau er mwyn ateb y galw cynyddol sy'n deillio o newidiadau lles, yn cynnwys gwaith a wneir gan y Trydydd Sector, nad yw'n gysylltiedig â diwygio lles<br>  • Dylid cynnal proses fapio ac asesu meintiol gynhwysfawr o'r gwasanaethau lles sydd ar gael ar draws pob sector (cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector) | • Bydd hyn yn helpu i greu gwell dealltwriaeth ymysg y cyhoedd ar faterion y mae hawlwyr yn eu hwynebu, yn ogystal â'u galluogi i wneud cais heb fod ofn stigma<br>• Mae angen cynnal hyn cyn gynted â phosibl, mewn ffordd ddeallus nad yw'n ymwthiol<br>• Mae hyn yn hanfodol fel y gall pob sefydliad adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio, dod yn ymwybodol o brosiectau eraill yn eu cymunedau, a chyfeirio pobl atynt yn briodol fel y bo'n briodol<br>• Mae angen datblygu trosolwg o'r holl ymarferion mapio perthnasol, a fydd yn nodi ble y mae angen buddsoddiad pellach a pha gamau y mae angen eu cymryd ar lefel strategol | **Dd/G** |

20. http://seemescotland.org.uk/.

# Atodiad B: Enghraifft o daith gyfun hawlydd (wedi'i rhannu rhwng y Ganolfan Byd Gwaith a darparwr triniaeth) ar gyfer hawliwr gyda phroblemau cyffuriau/alcohol

Mae hyn yn dangos trefniant sy'n bodoli eisoes rhwng Canolfan Byd Gwaith Coventry a darparwyr triniaeth lleol gwasanaethau cyffuriau/alcohol o dan y Protocol Cydweithio rhwng y Ganolfan Byd Gwaith a Darparwyr Triniaeth[21]. Mae llawer o'r gwasanaethau triniaeth cyffuriau/alcohol hefyd yn defnyddio gwasanaethau a noddir gan lywodraeth leol, fel hosteli i bobl ddigartref neu wasanaethau Gofal Cymdeithasol. Gallai gwasanaethau eraill i gefnogi'r hawliwr i ddatblygu sgiliau bywyd gwell, fel cyllidebu, a gallu digidol, hefyd fod yn rhan o'r daith.

**Trefniadau gweithio ar y cyd rhwng Canolfan Byd Gwaith Coventry a darparwr triniaeth lleol, y 'Partneriaeth Adfer' (RP)**




21. Gweler http://www.nta.nhs.uk/uploads/employmentandrecovery.final.pdf.

# Atodiad C: Sefydliadau Tai a Sefydliadau o'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol

## Mae'r sector tai cymdeithasol yn cynnwys tai sy'n eiddo i a'i rheolwyd gan gynghorau, Sefydliadau Rheoli Hyd Braich (ALMOs) ar gyfer stoc tai cyngor a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig[22].

Un o brif nodweddion darparwyr tai cymdeithasol yw eu bod yn cynnig eiddo sy'n rhatach na phrisiau rhenti'r farchnad a ddyrennir i denantiaid yn unol ag anghenion tai, fel arfer o restrau tai cyngor.

Mae dyrannu tai cymdeithasol ar sail anghenion yn golygu bod tenantiaid cymdeithasol yn cynnwys niferoedd mawr o bobl ag anghenion cymorth cymharol gymhleth. Mewn ymateb i hyn mae llawer o ddarparwyr tai cymdeithasol wedi dechrau darparu gwasanaethau cymorth i'w tenantiaid er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gael eu cynnwys yn gymdeithasol. Mae llawer o ddarparwyr tai cymdeithasol hefyd yn cynorthwyo tenantiaid i ddatblygu'r sgiliau a'r cymwysterau i gael cyflogaeth.

Mae sefydliadau'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol yn cyflawni dwy rôl allweddol o fewn y dirwedd les. I ddechrau, mae ganddynt swyddogaeth "hawliau lles ac eiriolaeth", gan roi cymorth ymgynghorol a chyfreithiol i nifer fawr o bobl y mae angen iddynt allu manteisio ar fudd-daliadau a gwasanaethau eraill. Yn ail, maent yn gweithio'n agos gyda rhai o'r bobl fwyaf difreintiedig mewn cymdeithas, fel pobl ddigartref neu bobl â phroblemau cyffuriau neu alcohol. Yn aml, maent yn cyflawni'r rolau hyn mewn partneriaeth â darparwyr tai cymdeithasol a chynghorau. Mae'r sector yn cynnwys elusennau cenedlaethol mawr (e.e. Shelter, Canolfannau Cyngor ar Bopeth) ynghyd â llu o sefydliadau gwirfoddol bach lleol neu ranbarthol sy'n gwneud y math hwn o waith.

Mae darparwyr tai cymdeithasol a staff o'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol yn aml yn treulio llawer o amser gyda'u cleientiaid, maent yn eu hadnabod wrth eu henwau ac yn aml yn darparu gwasanaeth dwys iddynt. Yn aml, mae nodau'r sefydliadau hyn yn ategu polisi Credyd Cynhwysol; cynhwysiant cymdeithasol ac ariannol; annibyniaeth bersonol a ffocws ar waith.

22. Cyfeirir ato hefyd fel Darparwyr Cofrestredig Tai Cymdeithasol neu Gymdeithasau Tai.

# Atodiad Ch: Dewislen Treialu'r Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol


## Gweithio mewn partneriaeth

**Profi gweithio mewn partneriaeth**
Rydym yn bwriadu profi'r agweddau allweddol canlynol ar weithio mewn partneriaeth:

**Cynllunio a threfnu:**
- Creu partneriaethau effeithiol ar gyfer cynllunio gwasanaethau - sicrhau bod y bobl briodol yn cymryd rhan;
- Asesu a mapio anghenion poblogaeth leol;
- Comisiynu gwasanaethau at gynorthwyo hawlwyr;
- Rheoli newidiadau ar draws rhwydweithiau amrywiol;
- Trefniadau llywodraethu a chadeirio.

**Rheoli arian ar lefel partneriaeth:**
- Dyrannu arian rhwng y Ganolfan Byd Gwaith a chynghorau;
- Nodi llifoedd arian eraill;
- Gwneud a dirprwyo penderfyniadau;
- Datrys anghydfodau'n lleol - dim ond rhoi'r broses cyfeirio at lefel uwch mewn amgylchiadau eithriadol;
- Gofynion o ran Gwybodaeth Reoli;
- Rheoli perfformiad sefydliadau partneriaeth.

Ein nod yw cynnig canllawiau arfer da er mwyn helpu DWP a rheolwyr llywodraeth leol i ffurfio partneriaethau effeithiol, a chynnwys partneriaid o sectorau eraill yn briodol i gynllunio teithiau cyfannol effeithiol i hawlwyr a rennir rhwng asiantaethau cymorth.




Lle y mae dwy haen o lywodraeth leol byddem yn disgwyl iddynt weithio gyda'i gilydd fel rhan o'r bartneriaeth a diffinio'r rôl briodol y dylai pob un chwarae ynddo.

**Asesu anghenion y boblogaeth leol**
Ein nod yw gallu argymell dulliau arfer da o asesu anghenion cymhleth o fewn poblogaeth leol. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu partneriaethau effeithiol cyn cyflwyno Credyd Cynhwysol ym mhob ardal.

Mae nifer o becynnau offer ystadegol ar gael ar gyfer proffilio anghenion poblogaethau fel yr ardal ddaearyddol a gwmpesir gan bartneriaeth gyflenwi. Er enghraifft:
- Pecyn offer y Ganolfan dros Gynhwysiant Economaidd a Chymdeithasol ar gyfer ALlau yn Lloegr[23]
- Pecyn offer ESD y Cymdeithasau Llywodraeth Leol[24]
- Ystadegau cymdogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol[25]

Efallai y bydd partneriaethau hefyd am gasglu data penodol i gefnogi dealltwriaeth o anghenion poblogaeth leol, fel arolygu anghenion pobl sy'n ceisio cymorth o swyddfeydd y Ganolfan Byd Gwaith neu 'siopau un stop' llywodraeth leol.

Efallai y bydd landlordiaid cymdeithasol a darparwyr gwasanaethau allweddol o'r sector gwirfoddol am gael darlun "person cyfan" o anghenion defnyddwyr gwasanaethau yng ngoleuni'r newidiadau a gyflwynwyd gan Gredyd Cynhwysol. Er enghraifft, mae landlordiaid cymdeithasol sy'n cymryd rhan gyda'r Prosiectau Arddangos Taliadau Uniongyrchol wedi asesu a monitro'r cymorth sydd ei angen ar denantiaid[26].

Fel rhan o esmwytho'r newid i daliadau uniongyrchol, mae DWP yn anelu at weithio gyda landlordiaid cymdeithasol i helpu i nodi tenantiaid y bydd angen rhywfaint o gymorth a chefnogaeth arnynt a'u paratoi o flaen llaw Credyd Cynhwysol,

23. http://www.cesi.org.uk/social-justice-toolkit.
24. http://www.esd.org.uk/esdtoolkit/default.aspx.
25. http://www.neighbourhood.statistics.gov.uk/dissemination/.
26. http://www.cih.org/directpaymentslearningnetwork.

yn ogystal â'r rhai a allai fod angen Trefniadau Talu Amgen i ddechrau. Bydd DWP yn archwilio cyfleoedd i symud tenantiaid sy'n fwy abl ac yn barod i daliadau uniongyrchol yn gynnar i'w symud gam yn nes at barodrwydd gweithio.

Amlinellir y bwriad hwn mewn araith i'r Sefydliad Tai Siartredig yn yr haf ac mae'n cael ei datblygu fel rhan o weithgaredd paratoi landlordiaid. Gall landlordiaid cymdeithasol sy'n cymryd rhan yn hwn adnabod gofyniad Gwasanaeth Cyllidebu Personol a allai ddarparu mewnbwn defnyddiol at ddibenion treialu.

**Darparu gwasanaethau drwy weithio mewn partneriaeth**
Yn ogystal â deall beth yw'r ffordd orau o ddwyn yr asiantaethau gorau ynghyd i gynllunio gwasanaethau, mae'r broses o ddarparu gwasanaeth cyfannol ar y cyd yn adlewyrchu nod dull y Fframwaith yn y pen draw. Felly, byddwn yn profi dulliau o ddarparu gwasanaethau er mwyn canfod arfer da yn y maes hwn a llywio canllawiau a'r dulliau eraill sydd eu hangen i gefnogi'r dull (er enghraifft, yr offeryn ariannol a thempled y cytundeb partneriaeth cyflenwi).

Rydym yn awyddus i brofi sut y gellir rheoli atgyfeiriadau rhwng asiantaethau er mwyn lleihau'r angen i gasglu gwybodaeth fwy nag unwaith a sicrhau bod cymaint o hawlwyr â phosibl yn mynychu apwyntiadau. Gallai hyn fod drwy sicrhau atgyfeirio'n briodol yn hytrach na dim ond cyfeirio, neu drwy alluogi hawlydd i siarad ag unigolyn penodol ynghylch pryd y dylai ddod i mewn i gael apwyntiad.

Hoffem weithio tuag at yr egwyddor o sicrhau taith gyfannol hawlydd i unigolyn sydd ag anghenion cymhleth, yn cynnwys sut i ymgysylltu â'r hawlydd wrth gynllunio ei daith tuag at annibyniaeth a gwaith.

Bydd cyfleu'r dull hwn i staff rheng flaen hefyd yn allweddol i'n llwyddiant. Bydd angen i staff gael ymdeimlad clir o'r strategaeth leol sydd ar waith ar gyfer cefnogi hawlwyr sydd ag anghenion cymhleth priodol a bydd angen iddynt gael gwybodaeth o'r cymorth cyfannol ehangach sydd ar gael i'r bobl y maent yn gweithio gyda hwy a manteisio ar y cymorth hwnnw.

## Cytundeb Partneriaeth Cyffredinol / Cytundeb Partneriaeth Cyflenwi

**Cytundebau Partneriaeth Cyffredinol**
Mae gwaith yn mynd rhagddo ar y broses o gynllunio a datblygu'r Cytundeb Partneriaeth Cyffredinol a gaiff ei lofnodi gan DWP a phob un o'r cymdeithasau awdurdod lleol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Bydd y Cytundeb yn adlewyrchu'r cytundeb ar lefel gorfforaethol a strategol rhwng DWP a phob un o'r Cymdeithasau Awdurdod Lleol mewn perthynas â'r Fframwaith.

Bydd y Cytundeb yn nodi'r egwyddorion cyffredinol a ddylai fod yn berthnasol i'r holl Gytundebau Partneriaeth Cyflenwi Lleol, er y cydnabyddir y bydd angen hyblygrwydd yn dibynnu ar unrhyw ddulliau gwahanol a ddefnyddir. Yn gryno, mae'n debygol y bydd y Cytundeb yn cwmpasu:

- Egwyddorion partneriaeth strategol;
- Ffurfio partneriaethau;
- Darparu gwasanaethau;
- Disgwyliadau gwasanaethau;
- Comisiynu;
- Rheoli arian;
- Gwerthoedd a rennir a ffactorau hanfodol ar gyfer llwyddo;
- Gwelliant parhaus;
- Llywodraethu a datrys anghydfodau.

Y nod yw cadarnhau'r Cytundeb cyn cyflwyno Credyd Cynhwysol ymhellach gan adolygu'r cytundeb yn rheolaidd wrth i ragor o wybodaeth ar faterion ariannol ar gyfer y Fframwaith a'r broses gyflwyno gael ei rhyddhau.

**Cytundebau Partneriaeth Cyflenwi**
Mae Cytundebau Partneriaeth Cyflenwi eisoes yn weithredol mewn ardaloedd arbrofol rhwng y Ganolfan Byd Gwaith a'r cyngor ym mhob lleoliad. Cafodd y rhain eu coethi ymhellach (yn seiliedig ar wersi a ddysgwyd) ar gyfer y broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol yn genedlaethol rhwng mis Hydref 2013 a mis Mawrth 2014, a byddant yn parhau i gael eu datblygu er mwyn paratoi ar gyfer y cam nesaf o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol yn ystod 2014/15.

## Rheoli Arian

**Dull o reoli arian**
Mae DWP yn gweithio gyda Chymdeithasau Awdurdod Lleol i ddatblygu dull rheoli arian y gwasanaethau cymorth lleol sydd eu hangen o'r newydd neu y mae cynnydd yn eu llwyth gwaith o ganlyniad uniongyrchol i Gredyd Cynhwysol.

Bydd angen i bartneriaethau lleol rhwng ALlau a'r Ganolfan Byd Gwaith gytuno pwy sy'n darparu pa wasanaethau i ba hawlwyr, asesu cost darparu'r gwasanaethau hynny a chytuno ar yr arian. Mae'r drafodaeth hon yn cynnwys cytuno ar p'un ai DWP neu wasanaethau llywodraeth leol sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu gwasanaethau, yn ogystal ag ystyried lle y gallai partneriaid eraill, fel Cymdeithasau Tai neu'r Sector Gwirfoddol, allu darparu gwasanaethau'n haws neu'n fwy effeithlon na staff y Ganolfan Byd Gwaith neu'r cyngor.

Bydd y dull rheoli arian yn:
- Ymgorffori dull o benderfynu ar arian ar y cyd rhwng ALlau a'r Ganolfan Byd Gwaith ar lefel bartneriaeth leol;
- Cytuno ar bartneriaethau sy'n gyfrifol am sicrhau manylion gwasanaethau, dyrannu arian, ac ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau; gyda'r egwyddorion llywodraethu allweddol a ddisgrifir yn y Cytundeb Partneriaeth Cyffredinol;
- Sicrhau, yn yr achosion eithriadol iawn lle mae angen datrys anghydfod, y caiff materion eu cyfeirio'n uwch i uwch gyfarwyddwr gweithredu DWP eu trafod. Bydd DWP yn sicrhau bod Cymdeithasau Awdurdod Lleol yn ymwybodol o'r materion a gaiff eu cyfeirio'n uwch, a lle y bo'n briodol, byddant yn ceisio cymorth gan y Cymdeithasau Awdurdod Lleol wrth ddatrys unrhyw faterion;
- Cynnig y cyfle i alinio arian Gwasanaethau Cymorth Lleol gydag adnoddau eraill DWP a llywodraeth leol sy'n darparu gwasanaethau tebyg i hawlwyr, er mwyn hwyluso cymorth mwy cyfannol ar y lefel leol;
- Bod yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer y posibilrwydd o gynnwys arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ar gyfer y gweithgareddau hynny sy'n canolbwyntio ar helpu hawlwyr i fynd yn agosach at y farchnad lafur).

**Strwythur y model ariannol**
Caiff model ariannol gydag elfennau 'canlyniad', 'gweithgarwch' a 'gwarantedig' eu treialu. Bydd yr elfen 'gwarantedig' yn cefnogi'r broses o sefydlu'r gwasanaethau craidd er mwyn cynorthwyo hawlwyr, gyda'r elfen 'gweithgarwch' yn rheoli'r risg ariannol bod nifer yr ymyriadau hawlwyr sy'n ofynnol yn wahanol iawn i'r hyn a ragwelwyd. Bydd yr elfen 'canlyniad' yn sicrhau bod arian yn cefnogi gwasanaethau a ddarperir sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i hawlwyr.

Rhagwelir y bydd y gyfran o'r holl arian a delir er mwyn cyflawni 'canlyniadau' yn cynyddu wrth i'r gwasanaeth cymorth lleol aeddfedu ac wrth i Gredyd Cynhwysol symud o gyflwr trawsnewidiol i gyflwr sefydlog. Byddwn yn treialu dulliau gwahanol o fesur canlyniadau hawlwyr gan ddwyn hyn i gof.

Caiff pob canlyniad a gyflawnir ei wobrwyo gan yr un ganran o'r holl arian canlyniad (h.y. rhoddir yr un pwyslais i'r holl ganlyniadau) a bydd taliadau canlyniadau yn dechrau cael eu hennill o drothwyon sylfaenol penodol, gyda'r taliad mwyaf yn cael ei ennill ar y lefel targed canlyniad llawn (h.y. nid dim ond y ddau opsiwn 'wedi'i gyflawni'/'heb ei gyflawni').

Ceir cymorth cryf ar gyfer y cynnig i roi cymhelliant ariannol i gymorth ar gyfer hawlwyr sy'n 'anoddach eu helpu'. At ddibenion profi a threialu, caiff hawlwyr 'anoddach eu helpu'[27] eu diffinio fel a ganlyn:
- Hawlwyr â phroblemau iechyd meddwl;
- Hawlwyr ag anawsterau dysgu;
- Hawlwyr sy'n gaeth i gyffuriau neu alcohol;
- Hawlwyr sy'n ddigartref.

Cytunir ar ganlyniadau lefel uchel cyntaf yn genedlaethol. Fodd bynnag, ceir cyfle i gytuno ar ganlyniadau lleol ychwanegol rhwng sefydliadau partner.

27. Ffynhonnell: Dadansoddiad Rhaglen Credyd Cynhwysol, 2012.

Dylai canlyniadau ganolbwyntio ar ddau faes penodol i ddechrau: i) mynediad i Gredyd Cynhwysol a ii) cynhwysiant ariannol gyda phwyslais ar helpu hawlwyr i ddatblygu o fod yn ddibynnol ar fudd-daliadau tuag at annibyniaeth ariannol. Byddwn hefyd yn archwilio cyfleoedd i gysylltu 'bod yn barod i weithio' â chanlyniadau'r Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol, gan gydnabod gweithgareddau eraill a gynhelir er mwyn helpu hawlwyr i gael gwaith cynaliadwy (er enghraifft darparwyr ar gontract drwy'r Rhaglen Waith). Mae'r rôl y gallai cynghorau ei hystyried mewn perthynas â bod yn barod i weithio ar wahân i unrhyw ofynion gorfodol sy'n gysylltiedig â gwaith y gallai'r hawlydd fod yn agored iddynt o dan y drefn amodoldeb statudol, ond dylai ategu hynny.

Byddwn hefyd yn treialu'r cais o 'arian bloc' mewn rhai meysydd. Byddai arian bloc yn darparu arian craidd ac arian sy'n seiliedig ar weithgarwch hyd nes i'r broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol sefydlogi. Er y gellir cytuno ar ganlyniadau'n lleol, ni fyddai arian yn dibynnu arnynt hwy.

**Treialu'r model ariannol**

Mae cyfle i dreialu'r model ariannol (gyda'r elfennau gwarantedig, gweithgarwch a chanlyniad). Bydd y treial hwn yn ceisio deall y dulliau y mae partneriaethau cyflenwi yn eu dilyn er mwyn:

- Cydweithio i gytuno ar sut y caiff arian (adnoddau) eu defnyddio ar y lefel leol;
- Sicrhau bod gwasanaethau yn ddigon hyblyg i ymdopi os bydd galw yn uwch neu'n is na'r disgwyl;
- Cytuno ar sut y caiff y cyfraniadau cymharol a wneir i ganlyniadau eu dyrannu rhwng partneriaid gwahanol;
- Creu cymhellion priodol ar gyfer cynorthwyo'r bobl anoddaf eu helpu, a dysgu gwersi / nodi arfer da yn y maes hwn;
- Pennu lefel y prosesau gweinyddol (a'r gost gysylltiedig) sy'n ofynnol i gefnogi'r broses o roi'r model ariannol ar waith a chasglu Gwybodaeth Reoli er mwyn deall perfformiad partneriaeth.

Mae'n debygol y caiff rhagdybiaethau gweithio eu coethi yn ystod y cyfnod treialu a phrofi hwn (gyda mantais y gwersi a ddysgwyd wrth gynnal proses gysgodi) gyda chyfres derfynol o egwyddorion a chynigion y cytunwyd arnynt i'w cyhoeddi yn y Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol yn ystod hydref 2014.

Lle mae dulliau amgen o roi'r Fframwaith ar waith yn dal i gael eu hystyried, mae prosesau treialu yn cynnig y posibilrwydd o ddeall effaith ac effeithiolrwydd perthnasol y dewisiadau amgen. Mae prosesau treialu yn cynnig y cyfle i fesur a/neu gael tystiolaeth ategol o'r gwahaniaeth y mae'r Fframwaith yn ei wneud i hawlwyr a'r buddiannau a ddaw o'r newid hwn.

**Enghreifftiau o Fesurau Canlyniadau Profi a Threialu ar gyfer Cynorthwyo Hawlwyr ag Anghenion Cymhleth**

| Categori | Canlyniadau | Enghreifftiau o'r gwasanaeth(au) posibl a gyflenwir, wedi'u hategu gan gytundebau partneriaeth gyflenwi - i gael eu cytuno gan y bartneriaeth ar lefel leol |
|---|---|---|
| **Gwneud a rheoli cais Credyd Cynhwysol** | **Gwelliant canrannol cyffredinol yn erbyn y sefyllfa sylfaenol o ran nifer yr hawlwyr yn y categorïau hawlwyr 'agored i niwed' (Atodiad C y Fframwaith) y mae angen iddynt gael mwy nag un apwyntiad hyd at y pwynt pan allant gyflwyno eu cais eu hunain yn hyderus ac yn llwyddiannus a rheoli newidiadau yn eu hamgylchiadau eu hunain.** | • Cynllun hyfforddi a datblygu ar gyfer staff partneriaeth i'w galluogi i nodi hawlwyr ag anghenion cymhleth y mae angen help ychwanegol arnynt, a brysbennu priodol ac effeithiol ag unrhyw rwydwaith cymorth arbenigol a nodwyd - rhannu data / cyfathrebu gwell<br>• DWP a llywodraeth leol yn cydweithio er mwyn helpu hawlwyr ag anghenion cymhleth yn effeithiol a'u galluogi i symud tuag at fod yn hunangynhaliol.<br>• Effeithiolrwydd y broses atgyfeirio, staff wedi cael eu hyfforddi'n ddigonol ynghylch Credyd Cynhwysol i allu cynorthwyo hawlwyr - un pwynt cyswllt ym mhob lleoliad.<br>• Menter uwchsgilio digidol ar gyfer hawlwyr ag anghenion cymhleth - DWP a llywodraeth leol i gydweithio i rannu gwasanaethau er mwyn cyflawni nodau a rennir |
| **Rheoli taliadau misol** | **1) Gwelliant canrannol cyffredinol yn erbyn y sefyllfa sylfaenol o ran nifer y Trefniadau Talu Amgen a gofnodwyd yn lleol**<br><br>(I archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio system TG (e.e. CPS) i gyfrif nifer y Trefniadau Talu Amgen a geir fesul ALl, yn seiliedig ar y cod post)<br><br>**2) Gwelliant canrannol cyffredinol yn erbyn y sefyllfa sylfaenol yn nifer yr hawlwyr sy'n talu eu rhent eu hunain yn uniongyrchol i'r landlord am gyfnod parhaus e.e. 6 mis** | • Gwasanaeth cyngor cynhwysiant ariannol / taith gyfannol neu broses amserol<br>• Gwasanaeth cynllunio camau gweithredu ariannol misol<br>• Cyfle ar gyfer canlyniadau y cytunir arnynt yn lleol gyda sefydliadau partner lleol, yn ogystal â sefydliadau partner cenedlaethol e.e. Gwasanaeth Cyngor ar Arian, er mwyn cefnogi'r canlyniad hwn e.e.:<br>- cynnydd yn nifer yr hawlwyr sy'n gallu cwblhau a chynnal cynllun gweithredu ariannol sy'n berthnasol i'w hamgylchiadau<br>- helpu hawlwyr i gael cyfrif banc trafodol neu Undeb Credyd (lle nad ydynt wedi cael un o'r blaen) er mwyn eu cymell i beidio â defnyddio Trefniadau Talu Amgen |

Byddwn hefyd yn ystyried archwilio mesurau canlyniadau addas eraill.

Ceir cyfle hefyd i brofi'r elfen o'r model ariannol nad yw'n gysylltiedig â chanlyniadau drwy gysgodi (a fydd yn ystyried elfen warantedig y broses ariannu a'i chysylltiadau â gweithgarwch). Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, bydd angen i'r model:

- Rhoi'r cyfle i gynghorau (a'u partneriaeth gyflenwi lle y bo'n berthnasol) sefydlu lefel benodol o wasanaeth (h.y. gallu darparu'r gwasanaeth i hawlwyr yn unol â'r galw);
- Profi'r rhagdybiaethau a'r risgiau gyda'r cyllid a ddyrannwyd pan fydd niferoedd yr hawlwyr yn llawer is (er mwyn sicrhau y gallwn arddangos gwerth am arian o ran cyllid cyhoeddus) neu yn llawer uwch na'r lefelau a ragwelir yn ystod blynyddoedd cynnar y gwasanaeth (lle bydd yr arian yn gyfyngedig);
- Asesu'r gwerth am arian sy'n deillio o ddarparu'r gwasanaeth cymorth lleol;
- Diffinio amseriad ac amlder taliadau.

Mae prosesau treialu yn cynnig y cyfle i fesur a/neu gael tystiolaeth ategol o'r gwahaniaeth y mae'r Fframwaith yn ei wneud i hawlwyr a'r buddiannau a ddaw o'r newid hwn.

Mae'n debygol y caiff y rhagdybiaethau gweithio hyn eu coethi yn ystod y cyfnod treialu a phrofi hwn (gyda mantais y gwersi a ddysgwyd wrth gynnal proses brofi drwy gysgodi) gyda chyfres derfynol o egwyddorion a chynigion y cytunwyd arnynt i'w cyhoeddi yn y Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol yn ystod hydref 2014.

## Profi effeithiolrwydd y broses o ddarparu gwasanaethau rheng flaen

Byddwn yn treialu ffyrdd o nodi anghenion hawlwyr yn gywir, a sicrhau y gallant fanteisio ar bob agwedd ar Gredyd Cynhwysol - budd-daliadau a delir a ffocws ar waith - gyda'r cymorth mwyaf priodol.

Byddwn yn adeiladu ar waith fel yr enghreifftiau yn **Atodiad A**. Mae hyn yn dangos sut mae rhai o staff DWP a chynghorau wedi datblygu ffyrdd cynhwysfawr o ddeall anghenion cymorth hawlwyr a rhoi'r lefel briodol o wasanaeth iddynt.

Y nod yn y pen draw yw sicrhau y gall partneriaeth leol ddarparu gwasanaethau effeithiol i'r rheini y mae angen cymorth arnynt.

Ar lefel y rheng flaen hoffem gael enghreifftiau o:

- Asesu a brysbennu hawlwyr unigol er mwyn eu hatgyfeirio at wasanaethau a lefelau cymorth priodol;
- Trefniadau ar gyfer mynediad a chymorth digidol;
- Trefniadau ar gyfer Cymorth Cyllidebu Personol;
- Creu taith gyfannol ar y cyd wedi'i theilwra ar gyfer rheoli achosion hawlwyr ag anghenion cymhleth, yn cynnwys pryderon ymarferol fel sicrhau y caiff gwybodaeth am hawlwyr ei rhannu rhwng sawl asiantaeth mewn modd cyfreithlon;
- Mesur canlyniadau ar gyfer gwasanaethau cymorth lleol.

## Agweddau penodol eraill ar gyfer profi

**Yn barod i weithio**
Mae sicrhau bod pobl 'yn barod i weithio' yn un o gyfrifoldebau craidd DWP drwy rwydwaith y Ganolfan Byd Gwaith ac mae'n ymwneud â sicrhau bod hawlydd yn cyrraedd y pwynt lle mae'r unigolyn yn barod ac yn abl i gyfrannu at gymuned waith. Yr amcan yw sicrhau bod gan hawlwyr y wybodaeth, y sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen i lwyddo yng ngweithle'r 21ain ganrif, drwy gaffael, er enghraifft:

- Sgiliau dysgu gydol oes;
- Sgiliau a gwybodaeth sylfaenol am y gweithle/cyflogadwyedd;
- Sgiliau technegol sy'n gysylltiedig â gwaith sylfaenol;
- Sgiliau rhyngbersonol a mwy o hyder.

O ganlyniad, gall unigolion ag anghenion cymhleth, o unrhyw oedran a chefndir, wireddu eu potensial, a lle bynnag y bo'n bosibl, ategu gofynion gwaith ar lefel mynediad neu gael yr hyder i geisio mwy o waith/gwaith sy'n talu'n well, fel llwyfan ar gyfer llwyddiant unigol a bod yn hunangynhaliol.

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn gwneud hyn drwy weithio gyda phartneriaid lleol fel yr Asiantaeth Ariannu Sgiliau(SFA), cynghorau, y gymuned leol a'r sector gwirfoddol a darparwyr nad ydynt dan gontract.

**Cymhwyster Cronfa Gymdeithasol Ewrop**
Rydym hefyd yn awyddus i archwilio sut y gallai gwasanaethau'r Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol fod yn gydnaws â cheisiadau yn y dyfodol i Gronfa Gymdeithasol Ewrop gan ALlau yn Lloegr[28]; yn benodol lle y gall arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop gefnogi taith hawliwr o fod yn manteisio ar wasanaethau lles i gymryd rhan yn y farchnad lafur. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd cymorth gwasanaethau gwaith statudol (cymorth ac ymyriadau gynnal gofynion ymrwymiad ac amodoldeb hawlwyr) yn parhau i gael ei ddarparu gan DWP a darparwyr y Rhaglen Waith yn unol â darpariaethau contract.

28. Mae hyn yn cydnabod bod gan Gymru a'r Alban eu hawdurdod ariannu eu hunain.

# Atodiad D: Prosbectws Treialu

**Dyma restr o'r elfennau rydym yn ystyried y gellir eu treialu i lywio'r Fframwaith, a'r lleoliadau mwyaf addas, fodd bynnag nid ydym wedi datblygu cynlluniau manwl eto a gallant fod yn agored i newid. Byddem yn croesawu sylwadau ar y cynigion hyn, ynghyd ag unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb mewn gweithio gyda ni i ddatblygu'r treialon hyn ymhellach.**

| Elfen o'r Fframwaith | Beth rydym am ei ddysgu? | Cyflwyno Credyd Cynhwysol yn Barhaus | | | Prosiectau Peilot o dan arweiniad ALlau | Profi yn y dyfodol | Safleoedd profi gwirfoddolwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 4 safle (Ardal Arbrofol) | 6 safle (Hydref 2013) | Cam ehangu nesaf | | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau |
| **Profi'r Broses** | | | | | | | |
| **Gweithio mewn Partneriaeth** | | | | | | | |
| **Cynllunio a threfnu** | • Beth yw'r modelau mwyaf effeithiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth?<br>• Pwy yw'r niferoedd allweddol a beth yw eu rolau ar adegau amrywiol?<br>• Pa gylchoedd gorchwyl neu femorandwm dealltwriaeth sydd eu hangen?<br>• Sut i rannu gwybodaeth a data yn ddiogel ac yn gyfreithiol? | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Rheoli arian** | • Sut rydym yn sicrhau bod gwneud penderfyniad ar y cyd yn ffordd effeithiol o ddefnyddio adnoddau lle mae eu hangen fwyaf yn lleol?<br>• Beth yw'r ffordd orau o nodi a defnyddio llifoedd ariannu ychwanegol?<br>• Pa effaith a geir pan fydd gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r Fframwaith yn defnyddio adnoddau penodol nad ydynt yn gysylltiedig â'r Fframwaith?<br>• Pa fframweithiau ariannu sydd eisoes ar waith neu y gellir eu datblygu?<br>• Profi'r rhagdybiaethau enghreifftiol ar y gost o ddarparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r Fframwaith<br>• Beth yw cost weinyddol y bartneriaeth, a pha wybodaeth reoli sydd ei hangen | ✓ | ✓ | ✓ | X | ✓ | X |
| **Asesu anghenion lleol** | • Pa un yw'r ffordd orau o asesu a monitro gofynion newidiol y boblogaeth leol?<br>• Pa un yw'r ffordd orau o nodi patrwm gwasanaethau lleol, chwaraewyr allweddol ac unrhyw fylchau mewn gwasanaeth gan adeiladu ar wasanaethau sy'n bodoli eisoes?<br>• Sut y dylai partneriaethau fapio mynediad a strwythuro gwasanaethau'r Fframwaith er mwyn diwallu anghenion lleol? | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Darparu gwasanaethau drwy bartneriaethau** | • Sut mae prosesau gwneud penderfyniadau wedi'u dirprwyo yn gweithio?<br>• Pa wybodaeth reoli sydd ei hangen a sut i'w chasglu?<br>• Pwy fydd yn darparu pa wasanaethau i ba hawlwyr?<br>• Pa fodelau o ddarparu gwasanaethau a ddefnyddir?<br>• Sut y caiff gwybodaeth a data eu rhannu i wella'r broses o ddarparu gwasanaethau?<br>• Pa un yw'r ffordd orau o reoli a monitro perfformiad darparwyr gwasanaethau?<br>• Sut mae partneriaid yn cydweithio er mwyn darparu gwasanaeth di-dor ac osgoi trosglwyddiadau diangen<br>• A yw'r broses o ddatrys anghydfodau yn gweithio (lle y bo'r angen)? | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

| Elfen o'r Fframwaith | Beth rydym am ei ddysgu? | Cyflwyno Credyd Cynhwysol yn Barhaus | | | Prosiectau Peilot o dan arweiniad ALlau | Profi yn y dyfodol | Safleoedd profi gwirfoddolwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cytundebau Partneriaeth Gyflenwi** | • Sut y cytunir ar Gytundebau Partneriaeth Gyflenwi?<br>• A oes angen datblygu strwythur y Cytundebau Partneriaeth Gyflenwi ymhellach? | ✓ | ✓ | ✓ | X | ✓ | X |
| **Model Ariannol (yn cynnwys y dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau)** | | | | | | | |
| **Asesu gwerth am arian y Gwasanaeth Cymorth** | • Beth yw effaith y Fframwaith ar gyfer hawlwyr ac ar yr ardal leol<br>• Sut y gallwn nodi a chaffael tystiolaeth gadarn er mwyn cefnogi'r asesiad gwerth am arian<br>• Beth yw effaith y Fframwaith ar wasanaethau Tai a'r Sector Gwirfoddoli a Chymunedol | ✓ | ✓ | ✓ | X | ✓ | ✓ |
| **Strwythur y model ariannol** | • Pa un yw'r ffordd orau o ddod i gytundeb o fewn y bartneriaeth er mwyn datblygu'r dull cyffredinol, y rhaniad canrannol o elfennau o'r model (gwarantedig/gweithgarwch/canlyniad) a llinellau sylfaen er mwyn mesur canlyniadau o gymharu â dull arian bloc<br>• Sut mae'r model ariannu yn ymateb i alw newidiol?<br>• Beth yw costau gweinyddol gweithredu'r model ariannol, a pha wybodaeth reoli sydd ei hangen a pha mor rhwydd yw casglu data | ✓ | ✓ | ✓ | X | ✓ | ✓ |
| **Profi Effeithiolrwydd y Gwasanaeth** | | | | | | | |
| **Asesu a brysbennu** | • Sut rydym yn sicrhau y caiff adnoddau brysbennu eu targedu at y rheini sydd â'r angen mwyaf?<br>• A yw cymorth hawlwyr yn cael eu nodi'n gywir drwy'r brysbennu e.e. cyngor ar ddyledion?<br>• A yw'r gwasanaeth yn cynnig cymorth effeithiol i hawlwyr?<br>• Pa rôl y dylai ALlau, landlordiaid cymdeithasol a'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol yn ei chwarae yn y broses frysbennu? | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Mynediad ar-lein a chymorth digidol** | • Beth yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyfeirio/atgyfeirio at gymorth ar-lein<br>• Sut y gall partneriaid roi cymorth ar-lein i grwpiau gwahanol, gan ddefnyddio'r gallu lleoli gorau?<br>• A yw darparu cymorth ar-lein effeithiol yn gwella gallu hawlwyr i reoli ceisiadau/manteisio ar wasanaethau eraill ar-lein yn y dyfodol? | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Gwasanaeth Cyllidebu Personol (PBS) - Cyngor Ariannol a Threfniadau Talu Amgen (APA)** | • Sut rydym yn sicrhau bod y rheini y mae angen PBS arnynt yn cydnabod yr angen ac yn manteisio ar y cymorth sydd ar gael?<br>• Pa un yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyfeirio/atgyfeirio at gyngor ariannol/cymorth cyllidebu?<br>• Pa wahaniaeth y mae'n ei wneud os mai PBS yw'r unig angen cymorth a nodwyd neu os yw'n un o sawl angen cymorth?<br>• Pa mor effeithiol yw darparwyr PBS wrth helpu hawlwyr i reoli'r taliad misol unigol safonol, a'u cyllid eu hunain yn cynnwys costau tai? | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Dull cyfannol** | • Sut y gall rhannu gwybodaeth a data helpu prosesau cyfannol o reoli achosion<br>• Pa asiantaethau / staff y mae angen eu cynnwys ar gyfer hawlwyr ag anghenion cymorth gwahanol? | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

| Elfen o'r Fframwaith | Beth rydym am ei ddysgu? | Cyflwyno Credyd Cynhwysol yn Barhaus | | | Prosiectau Peilot o dan arweiniad ALlau | Profi yn y dyfodol | Safleoedd profi gwirfoddolwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Meysydd penodol eraill ar gyfer profi** | | | | | | | |
| **Yn barod i weithio** | | | | | | | |
| **Yn barod i weithio** | • Sut y gall y bartneriaeth gydweithio i alinio gweithgareddau'r Fframwaith neu ariannu mewn perthynas â darpariaeth gan y Ganolfan Byd Gwaith i roi'r wybodaeth, y sgiliau a'r galluoedd i hawlwyr er mwyn eu helpu i fod yn barod i weithio? | X | X | X | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop (Lloegr yn unig)** | | | | | | | |
| **Addasrwydd arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop** | • Pa un yw'r ffordd orau o fanteisio ar arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop a'i ddefnyddio i gefnogi gwasanaethau'r Fframwaith? | X | X | X | ✓ | X | X |

# Atodiad Dd: Sefydlu lefel y cymorth sy'n ofynnol: Manteision cynllunio'n gynnar

**Y Trosglwyddiad i Gredyd Cynhwysol: Dadansoddiad o anghenion cymorth**
Er mwyn paratoi ar gyfer y trosglwyddiad i Gredyd Cynhwysol, mae Bwrdeistrefi Lambeth, Lewisham a Southwark yn Llundain wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr yn DWP yn Ne Llundain i gynnal dadansoddiad o anghenion cymorth y Fframwaith. Drwy ddefnyddio Cyfleuster Mapio'r Fframwaith maent wedi gallu dadansoddi'r amrywiaeth bresennol o wasanaethau y gall y Bwrdeistrefi a'r Ganolfan Byd Gwaith eu darparu ar hyn o bryd er mwyn nodi bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir ac anghenion posibl yn y dyfodol. Gofynnwyd i'r 3 Bwrdeistref am eu safbwyntiau ar gynnal y darn hwn o waith.

**Beth fu gwerth cynnal y darn hwn o waith i chi hyd yma?**
Mae cynnal y dadansoddiad hwn wedi rhoi darlun llawer cliriach i'r Bwrdeistrefi o nifer y trigolion y bydd Credyd Cynhwysol yn effeithio arnynt a'r math o anghenion a fydd ganddynt. Mae wedi annog pobl i ystyried effeithiau adnoddau tebygol a gaiff y broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol ar y cynghorau ac mae rhannu a chymharu data ar draws y tri chyngor wedi helpu i ddilysu a herio'r meddylfryd presennol. O ganlyniad, mae'r Bwrdeistrefi wedi gallu nodi grwpiau penodol y bydd angen cymorth ychwanegol arnynt yn well ar ôl cyflwyno Credyd Cynhwysol. Mae'r gwaith hwn wedi eu galluogi i ragweld anghenion a chostau posibl darparu gwasanaethau cymorth o dan Gredyd Cynhwysol a nodi pa wasanaethau fydd fwyaf hanfodol er mwyn gallu trosglwyddo'n esmwyth i'r system newydd. Mae casglu gwybodaeth ynghyd ar y gwasanaethau presennol a ddarperir ac a ddefnyddir wedi helpu'r Bwrdeistrefi i amlygu'r ardaloedd lle y bydd mwy o angen cymorth. Mae hyn oll yn ddarn hanfodol o waith o fewn y cylch comisiynu a bydd yn golygu bod y Fframwaith a gynllunnir ac a ddarperir yn llawer mwy tebygol o ddiwallu anghenion yn effeithiol a chyflawni'r canlyniadau dymunol. Mae'r dadansoddiad o anghenion cymorth hefyd wedi helpu i nodi pa ddata a ddelir, a chan bwy, ac mae hefyd wedi nodi bylchau yn y data sydd ar gael.

**Beth rydym wedi'i ddysgu hyd yma?**
Mae'r Bwrdeistrefi yn dechrau deall y lefel o angen am gymorth drwy'r broses o drosglwyddo i Gredyd Cynhwysol a'r sianeli cymorth amrywiol sy'n bodoli ar hyn o bryd.


Yn Lambeth, fel rhan o'u gwaith ar adeiladu gwydnwch ariannol, maent wedi trefnu grwpiau ffocws ac wedi cynnal ymchwil ethnograffig sy'n cwmpasu rhai o feysydd allweddol y Fframwaith. Maent hefyd wedi cynnal prosiectau peilot ar raddfa fach gyda phobl â dyledion niferus, y rheini nad oes ganddynt gyfrifon banc a'r rheini ag anghenion cymorth penodol. Mae hyn, ynghyd â'r data o'r dadansoddiad o anghenion cymorth wedi rhoi gwybodaeth ddibynadwy arnynt ar lefel debygol y galw/angen a faint o gymorth y bydd angen ei ddarparu (o ran oriau a nifer) ar gyfer elfennau gwasanaeth gwahanol o fewn y fframwaith.

Mae Lewisham yn ardal Beilot dan arweiniad yr ALl ac mae'r anghenion a nodwyd ganddynt drwy'r prosiect peilot a'r dadansoddiad o anghenion cymorth wedi cadarnhau eu bod yn gyffredinol yn gyson â bwrdeistrefi cyfagos. Mae'r wybodaeth sydd ganddynt nawr yn eu galluogi i gynllunio'r gwasanaethau sy'n ofynnol er mwyn helpu trigolion i drosglwyddo i Gredyd Cynhwysol wrth i'r broses o'i gyflwyno ddechrau.

**Beth ydych chi'n bwriadu ei wneud â'r wybodaeth rydych wedi'i chasglu?**
Bydd y wybodaeth sydd gan y Bwrdeistrefi yn helpu i lunio dadansoddiad o'r bylchau mewn gwasanaethau o gymharu â'r ddarpariaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd, gan eu helpu i gyflwyno'r achos ar gyfer yr arian sydd ei angen ar gyfer gweithrediadau'r Fframwaith. Mae'r Bwrdeistrefi yn disgwyl defnyddio'r data hwn gyda phartneriaid i lywio'r broses o gomisiynu gwasanaethau o fewn y Fframwaith pan fydd pawb yn deall faint o arian fydd ar gael. Gan eu bod yn deall y garfan o bobl yr effeithir arnynt gystal, byddant hefyd yn cynnal proses o flaenoriaethu anghenion/galw, yn gogwyddo gwasanaethau'r cyngor a gwasanaethau

presennol eraill yn briodol, yn gwneud newidiadau i'r system lle y bo'r angen ac yn paratoi partneriaid ac eraill a fydd yn gweithio gyda hawlwyr Credyd Cynhwysol (e.e. banciau, undeb credyd, Trydydd Sector).

Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd ag adran gynllunio'r cylch comisiynu:




Mae wedi galluogi'r Bwrdeistrefi i asesu angen darpar hawlwyr Credyd Cynhwysol, i adolygu gwasanaethau presennol ac i benderfynu ar flaenoriaethau ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir.  Y cam nesaf fydd i gomisiynwyr gynllunio'r gwasanaethau a ddarperir o dan y Fframwaith.

**A yw'r ymarfer hwn wedi rhoi unrhyw syniadau i chi ar gyfer gwneud unrhyw beth yn wahanol eisoes?**

Bydd maint y newid a faint o gynhwysedd gwasanaeth fydd ei angen i fodloni hyn yn heriol. Mae'r dadansoddiad o anghenion cymorth yn amlygu faint o gymorth y bydd angen ei gynnig yn ogystal â'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd.  Bydd gwerthfawrogi hyn yn y ffordd fanwl y mae Bwrdeistrefi yn ei wneud nawr yn llywio cynlluniau comisiynu nid yn unig ar gyfer y Fframwaith ond hefyd yn gyffredinol, wrth i bawb weithio i greu pa bynnag gynhwysedd a chyfleoedd sydd eu hangen o fewn y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd.

Yn Southwark, roedd y cynlluniau eisoes yn cynnwys gweithredu fel partneriaeth gyda'r Ganolfan Byd Gwaith, y Sector Gwirfoddoli a Chymunedol a phartneriaid eraill ac archwilio'r cyfle ar gyfer cydweithredu rhwng y tair bwrdeistref a rhannu gwasanaethau o bosibl. Mae'r ymarfer hwn wedi atgyfnerthu'r farn bod hyn yn bwysig a rhoddodd enghraifft dda o weithio rhwng tair bwrdeistref gan eu bod, ar y cyd, wedi gallu llenwi bylchau mewn gwybodaeth am anghenion cwsmeriaid. Atgyfnerthwyd y farn bod yn rhaid i fframwaith lleol allu ymateb i anghenion lleol a bod angen gwneud mwy o waith er mwyn deall beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol.

# Atodiad E: Disgrifiadau o Wasanaethau Cymorth

## Ymysg y disgrifiadau cyffredinol o'r gwasanaethau y bydd eu hangen i ddarparu Credyd Cynhwysol mae:

- **Rhoi cyngor a gwybodaeth sylfaenol er mwyn helpu rhywun i wneud cais**
  - Darparu gwybodaeth sylfaenol am fudd-daliadau a sut i wneud cais;
  - Brysbennu a Chyfeiriadu er mwyn sicrhau bod hawlwyr yn cael y lefel briodol o gymorth ar gyfer defnyddio'r sianel ddigidol, neu eu cyfeirio at sianel amgen;
  - Cyngor a Chefnogaeth o ran Hawliau Lles.

- **Mynediad ar-lein**

- **Gwneud cais digidol â chymorth**

- **Cymorth canolraddol**
  - Rhoi Cymhorthion Hygyrchedd a Chyfathrebu lle y bo'n ofynnol;
  - Cymorth anghenion cymhleth (e.e. ar gyfer hawlwyr ag anawsterau dysgu neu anawsterau rhifedd / llythrennedd).

- **Cynhwysiant ariannol**
  - Helpu pobl i fanteisio ar gynnyrch bancio;
  - Darpariaeth o gynnyrch ariannol.

- **Cyngor ariannol a chymorth cyllidebu**

- **Nodi achosion ar gyfer Trefniant Talu Amgen**
  - Nodi achosion posibl ar gyfer taliadau eithriadau a chynnal cysylltiadau â darparwyr tai lle y bydd angen talu rhent yn uniongyrchol i landlord;
  - Atgyfeirio eithriadau, a rheoli'r broses ar gyfer sefydlu Trefniant Talu Amgen.

Adran Gwaith a Phensiynau

Cyhoeddwyd gan
Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Dyddiad: Rhagfyr 2013
www.dwp.gov.uk/cymraeg